ATHRAWIAETH YR EGLWYS.

YRHAN Gyntaf.

Yn Cynnwys

XII O *Draethodau Bucheddol*, a'r amryw Achosion, Wedi eu Casglu allan o rai o Homiliau *Etholedig* Eglwys

LOEGR.

A'u Cyfansoddi meVn *Dull Newydd*, ac *Araith* gyfaddas i'r amser, e'r lles ir Cyffredin.

Gan *Peter Nourse*, D. D.

At yr hyn y'chwanegwyd *Gweddiau Boreuol* a *Phrydnhawnol* i Deuluoedd.

O Waith y Parchediccaf Dad yn Nuw William Wake, D. D. Arglwydd Arch-Esgob *Caergaint*, neu *Canterbury*.

A'i Cyfieithu gan *E. S.* Person *Llangar*.

Argraphedig yn *Ghaerlleon* gan Roger Adams, 1731.

44.
4. 2
120.

At y Gwir Anrhydeddus

Sir GEORGE WYNNE,

O Goed y Llai Baronet.

GAN ddarfod ichwi, Bendefig Urddaſol ac i'ch Caredigion er eich mwyn Chwi, roddi imi y fath Gymmorth helaeth-lawn tuag at oſod allan y Llyfr hwn yn Argraphedig; Nid allaf lai na chydnabod yn ddiolchgar ac yn oſtyngedig Eich Haelioni a'ch Bonheddigeiddrwydd yn yr achos yma; yn enwedig gan ei wneuthur o honoch i ùn oedd Mo'r anghyfanabyddus i chwi.

Ac nid oes gennyf ùn ffordd well i ddadcan a thyſtiolaethu fy Niolchgarwch, na deiſyf Cennad i Ufudd anrhegu'r Llyfr ichwi, a cheiſio 'i ddiogelu tan eich Nodded a'ch Amddiffynfa. A chan fod ichwi glòd ragorol o herwydd eich Ymddygiad Creſyddol tuag at Dduw, eich Deiliadaeth ffyddlon, waſanaethgar i'n Graſuſaf Arglwydd Frenhin, ar Llywodraeth Brennol, fel y mae 'n ſefydlog mewn Tywyſogion o Broteſtanniaid; o herwydd Eich Cariad

i Eglwys Loegr, ac ir Wladwriaeth; o herwydd Eich Gofal, Eich Uniondeb a'ch Gwiadwri megys Penſwyddog; o herwydd Eich Cymmwynaſgarwch a'ch Trugarogrwydd, Eich Haelioni a'ch Eluſengarwch; ac o herwydd eich Tiriondeb a'ch Rhywiogrwydd megys Chriſtion a Gŵr Bonheddig; gobeithio y bŷdd gwiw gennych dderbyn yn groeſawus y Llyfr hwn, ſy 'n Cyfarwyddo ac yn annog Dynion i gynnyddu ac Ymrhelaethu fwyfwy yn y Cyfryw Rinweddau Canmoladwy.

A c megys y rhoddes Duw o'i *Guddiedig Dryſor*, ichwi Olud a Goruchafiaeth arbennig, felly y Caniattaodd ichwi ſin rhodd arall werthfawrocach na 'r Cwbl: Sef, Calon addfwyn, radlon, ſyberlan iw harferu er Gogoniant iw Enw Ef: Er harddwch i'ch Gwlad ac i'ch Tylwyth; er Cymmorth a Lleſteugarwch; ag yn ddiweddaf er lles i'ch Cyd-griſtnogion anghenus, wrth oſod llawer ar Waith i ynnill eu Cynnaliaeth trwy Lafur a Diwydrwydd, ac wrth ddiwallu Eraill a'ch Eluſenau, nad allant o herwydd Henaint neu Fethiantrwydd Mo'r llafurio am eu bywyd.

Arfer dâ 'r Bŷd ir Cyfryw Ddibenion daionus a wnâ Wr yn deilwng o honynt; Cymmhelled ag y gall Creadur fod o Ddoniau Ei Greawdr.

Heblaw hyn mae 'r ſawl ſy 'n perchennogi Meddiannau helaeth, ac yn gynnyſgaeddol a

Thueddfryd

hueddfryd trugarog-fwyn iw trefnu ac i Gy-
annu Cymmeſurdeb o honynt yn ôl Ewyllys
Rhoddwr mawr haelionus, mewn rhyw Rádd
n gyffelyb iw Creawdr, yr hwn ſydd *yn be-
eth yn rhoddi i ni bob peth iw Mwynhau*; yn gym-
naint ag y gellir dywedyd am y Cyfryw, fel
dywedodd Trigolion *Lyſtra* am *Paul* a *Barnabas*,
Duwiau yn rhith Dynion a ddeſcynnaſant attom.
Mo'r gyffelyb i Dduwiau neu Angylion dâ, yw
ſawl y rhoddes Duw iddynt *Allu* ac *Ewyllys* i
neuthur Daioni yn eu hamſer.

Ac megys y Cawſoch chwi 'r Bendithion
yn oddiwrth yr hwn y mae *pob rhoddiad dai-
nus, a phob rhodd berffaith yn diſcyn*, felly 'r Ar-
lwydd a'ch chwanego ac a'ch llwyddianno fwy-
wy, megys mewn Mawredd a Goruchafiaeth,
elly hefyd mewn Rhinwedd a Duwioldeb, ac a
wnêl i 'ch Plant a'ch Tylwyth ar eich ôl Etife-
ldu 'ch Crefydd a'ch Cynneddfau yn gyſtal a'ch
Anrhydedd a'ch Meddiannau. Yr hyn yw dy-
agrith Ddeiſyfiad,

Anrhydeddus Freyr,

Eich rhwymedig ach Ufudd
Waſanaethwr.

Llangar, Awſt.
17, 1731.

EDWARD. SAMUEL.

Ac

At y Darllennydd.

BWRIAD Rhagymadrodd yr Awdur yw dan[gos] os yr Achoſion o herwydd pa ham y darf[u] iddo ddewis y rhai mwyaf Etholedig a llesfawr Homiliau 'r Eglwys, a'u Cyfanſoddi mewn ffordd ac Araithyddiaeth mwy Cyfaddas i'r Amſeroedd hyn. am bwriad inneu yw ceiſio dy annog i ddarllen y Llyfr ſydd ger dy fron, yn fynych ac yn ſyriol, O herwydd Ei Odidogrwydd a i Leſtawrhyd

Canys os edrychwchwn ar yr Homiliau o'r rha[i] y mae 'n gyfanſoddedig, Nid oes neb Dyſgedig na's gŵyr eu bod wedi caſglu allan o Ffynnonau hywiol yr Yſgrythyrau Sanctaidd, ac Yſgrifennadau Prif-Athrawon Uniongred yr Eglwys Griſt nogol ac wedi eu Cywreinio gan y Gwŷr goreu; Duwiolaf a Dyſcedicaf yn eu hamſer, ſef, Cranmer Latimer, Juel ac Eraill o'u Cyffelyb, Ac wrth hynny nid all y Llyfr na bo 'n haeddigol o bob Derbyniad à Chroeſaw cymmeradwy. Gan fod Ei Edŷdd ai' Ddechreuad oddiwrth Moſes a'r Prophwydi, oddiwrth Griſt a'i Apoſtolion, oddiwrth Brif-Eſgobion a Thadau 'r Eglwys, ac yn ddiweddaf, oddiwrth y Gwyrdâ rhagorol a fuant Cynnorthwyol i ddileu Pabyddiaeth ac Eulunaddoliaeth, ac i Ail bureiddio a Sefydlu Creſydd ddilwgr yn y Deyrnas hon. Ar rhai'n oll, neu y rhan fwyaf o honynt, a gaſwant Dyſtiolaeth dda trwy Ffŷdd ac a ddioddofaſant Ferthyrdod

yrdod ŷn Ewyllyſgar ac yn gyſſurus er mwyn [illegible]
hau 'r Gwirioneedd ſydd gynnwyſedig ynddo.

Os Edrychwn ar Ddeſnydd â Sylwedd y Trae-
hiadau hyn, Ni cheir ynddynt ddim ond Ath-
awiaethau Gwir Greſydd â Rheolau Rhinwedd a
Duwioldeb, gydâ Chynghorion ac Annogaethau i gre-
u ac Ymſuchedduʼn gyfattebol. Ac os Yſtyrim
erwyl ac amcan y Gwaith, maeʼn hawdd dirnad
fod wedi ei fwriadu er mwyn y Dibenion goreu
godidocaf, ſef, er Gogoniant Duw, er Diogelwch
Llywodraeth, er Heddwch a Chynnydd ac Ad-
ladaeth yr Eglwys; er Llês iʼr Wladwriaeth; ac
n anad dim er Tragʼwyddol Jechydwriaeth yr E-
eidiau anfarwol a brynodd Chriſt ai Wirthfawroc-
af Waed. A phan oedd yr Hên Homiliau, ſyʼn
ynnwys y Gwirioneddau Arddercbog hyn, gwedi
wyllu a heneiddio o herwydd Amſer a chyfnewid-
ad yr Faith a Dull-ymadroddiad y Wlâd, (ſel y
digwydd ym mhôb Gwledydd mewn
awer * llaio Flynyddoedd nag ſydd * yn amſer
r pan gyſanſoddwyd yr Homiliau Edward y 6
ynny) maeʼr Awdur yma wedi ed. ar Fren-
irydu ac Adgyweirio a gloywi y hines Eliza-
hai Etholaf o honynt; aʼu beth.
wybreiddio mewn gwell trefn, ac
madroddîad hyſpyſach iʼr Oes, yr ŷm yn byw ynddi.
Nid yw hyn ond ûn Rhan (ar. Leiaf heſyd) er
waith. Os Caniattâ Duw Hoedl ac Jechyd imi,
a ddawʼr llall allan yn yr ûn Faith, ac ar yr
n Papur, ac am yr ûn brîs; er y bydd yn Cyn-
wys llawer ychwaneg nag ſydd yn y Llyfr yma.

Ac,

wedi cael o honot y Ddwyran ynghyd, i
'n gobeithio y gallaf ddywedyd y bydd ger
from Holl Gyngor Duw, ſef, Sylwedd y pethau ſy
raid i ti eu Credu au gwneuthur er Iechydwriaeth
A hyn trwy Nerth Duw, yr wyf yn ei ſwriadu,
bydd hyn yn gymmeradwy gan ſy 'Nghydwladwyr
ac yn enwedig gan y Gwirda ſyberlan ſydd a'u he
wau yma 'n Argraphedig.

Nid rhaid, rwy 'n gobeithio, fwrw ûn eſgus ar
ychwanegu 'r Gweddiau ſy 'n Calyn at y Llyſ
yma, gan eu bod mi 'r Deilwng o herwydd eu Ha
dur, ac o herwydd y llês Yſpytdol a ddichon
Coriſtion Duwioiſryd ei dderbyn oddiwrthynt.

Ac os bydd nêb yn anfodlonus o herwydd y Bre
geth ſy 'n Calyn yn ddiweddaf o gwbl ; Gwyb
ddant fod hynny yn ychwaneg iddynt am eu Ha
ian nag oedd wedi ei addaw. O ran Coffadwr
iaeth am Wr Bonheddig Hieddedigol, o Gymmyd
og addſwyn a Brawd Fŷdd Caredig ; Ac o ra
bodloni Dymuniant rhai o'i Berthynaſau Ef, (ni
a ran na Chlôd na Bûdd i mi fy hunan,) y ray
fygais ei gwneuthur fel hyn yn Gyhoeddus.

Gwnaed y Darllennydd ei Ddewis a'i edrych a
bon a'i peidio. Ond rwy 'n taer ddeiſyf ar hô
Dŷn, a garo 'i Enaid, Ddarllen y Llyfr, ac ar
ſer y Gweddiau hyn (neu Eraill cyffelyb iddynt
yn fynych, yn Yſtyriol (â gwir Sancteidd-fryd Cre
fyddol) ; ac nac ammheued neb a wnelo felly
chaiff lês a Difyrrwch Yſprydol oddiwrthynt yn
Rŷd yma ; a Diddanwch Trag'wyddol yn y nes
yr hyn yw gwir-ddeiſyfiad Eich Cydwladwr anwy

Edward Samuel

Subscribers and Benefactors for this Book.

A

THE Right Reverend *Francis* Lord Bishop of St. *Asaph.*

B

Mr John Babington Attorney at St. *Asaph.*
Mr. Thomas Bowen of *Jesus College Oxon.*
Mr. Bradshaw Fellow of *Jesus College Oxon.*
Mr. John Bray Vicar of *Llansilin.*
Mr. Richard Bulkeley of *Dronwy* Rect. of *Llan-*
William Bulkeley of *Brynddu* Esq; [*Fechell*

C

Edward Cadwaladr of Llandrillo.
Mr John Carter of *Baliol Coll. Oxon.*
Mr. Isaac Charles of *Jes. Coll. Oxon.*
Mr. Edward Conway of *Jes. Coll. Oxon.*
Mr. Richard Coytmore of *Plas Onn.*
John Cadwaladr Owen of *Llandrillo.*

D

Mr. Richard Davies Vicar of *Rhiwabon,*
Mr. Thomas Davies A. B. of *Jes. Coll. Oxon.*
Mr. William Davies Rect. of St. *George,*

E

Mr. George Edwards Rect. of *Llanarmon Dyffryn*
Mr. John Edwards of *Jes. Col. Oxon.* (*Ceiriog*
Mr. John Edwards Rector of *Llanwrin.*
Mr. John Edwards of *Jes. Coll. Oxon.*
Thomas Edwards of *Brynfford* Esq;
Mr. Thomas Edwards of *Jes. Coll. Oxon.*

Mr. William Edwards of *Harts Hall.*
Mr. Thomas Ellis of *Jeſ. Col. Oxon.*
Mr. David Evans of *Dolgelley Grocer.*
Mr. David Evans Cur. of *Guilsfield.*
David Evans of *Llandrillo.*
Mr. Evan Evans of *Branas.*
Mr. Griffith Evans of *Jeſ. Coll. Oxon.*
Mr. Humphrey Evans of *Llanderfel* deceaſ
Mr. James Evans of *Jeſ. Coll. Oxon.*
Mrs. Margaret Evans of *Bala* Widow.
Mr. Maurice Evans of *Jeſus Col. Oxon.*
Mr. Owen Evans of *Jeſ. Col. Oxon.*
Mr. Richard Evans of *Llannerch y Medd M.*
Mr. Simon Evans Vicar of *Llanarmon.*
Mr. Thomas Evans Vicar of St. *Aſaph.*
Mr. Walter Evans of *Lanaravon Monmouthſhi*

F.

David Foulks of *Gwerneigron* Eſq;
Humphrey Foulkes D. D. Rect. of *Marchwia*
Mr. Robert Foulkes Cur. of *Llanſihangel y Tra*

G

Mr. Charles Griffith of *Lanaravon Glamerganſhi*
Nehemiah Griffith of *Rhual* Eſq;
Thomas Griffiith of *Rhual M. D.*
Mr. John Gwynn Vic. of *Llandrillo.*

H

Mr. Thomas Hanmer Rect. of *Selattyn.*
Mr. Henry Harries of *Jeſus Coll. Oxon.*
Mr. John Harries of *Jeſ. Coll. Oxon.*
Mr. John Harries Vic. of *Magor.*
Mr. John Holland of *Jeſ. Coll. Oxon.*

Mr. Joh

Mr. John Hughes of *Bottegir.*
Mr. John Hughes of *Llandrillo.*
Mr. John Hughes Rector of *Llanbeder.*
Mr. Lewis Hughes of *Dolgelley* A.t. at Law.
Mr. John Humphreys of *Tyfos.*
Mr. William Humphreys of *Muerdy* Vic. of *Curwen.*
Mr. Ellis Hughes of *Oriel Coll. Oxon.*
Mr. John Hughes of *Jes. Coll. Oxon.*
Mr. William Hughes Rect. of *Llanfihangel Glyn Myfyr.*

J

Mr. James Jardin.
Mr. William Jenkins Curate of *Trefdlin.*
Madam Jones of *Llanrhaiadr.*
Mr. Edward Jones of *Caernarfon Mercer.*
Mr. Edward Jones of *Tan y Gaer in Trewyn.*
Mr. Ellis Jones Officer of the Excise in *Bala.*
Mr. Evan Jones of *Ty Du.*
Mr. Eubule Jones A. B. of *Jesus Coll. Oxon.*
Mr. Hugh Jones of *Llanveres.*
Mr. Hugh John Lewis Clark of *Llandrillo.*
Mr. Jenkin Jones of *Pen How.*
Mr. John Jones of *Llangar.*
Mr. John Jones B. D. Vic. of *Wrexham.*
Mr. Lewis Jones A. B. of *Jes. Coll. Oxon.*
Mr. Maurice Jones of *Rhyd y Fenn.*
Mr. Owen Jones of *Jes. Coll. Oxon.*
Mr. John Jones Vic. of *Llanfawr.*
Mr. Robert Jones Rect. of *Worthenbury.*
Mr. Robert Jones of *Plâs Brith in Dolgelley.*
Thomas Jones D. D. Vic. of *Abergeley.*
Mr. Thomas Jones of *Llandrillo.*

Mr. Thomas Jones of *Llangar.*
Mr. Thomas Jones Rect. of *Llangwyfan.*
Thomas Jones of *Llanloddian* Esq;
Mr. Richard Jones Scholar of *Wrexham.*
Mr. Humphrey Jones of *Jes. Coll. Oxon.*
Mr. Hugh Jones of *Ddôl.*

K

Mr. John Kemeys of *Jesus Coll. Oxon,*
Mr. John Kenrick Vic. of *Llangernew.*

L

Mr. Richard Langford Archdeacon of *Meirioneth*
Mr. Richard Lewis of *Jes. Coll. Oxon.*
Thomas Lewis Esq; Register of St. *Asaph,*
Mr. Thomas Lewis Cur. of *Tryddyn.*
Mr. George Leach of *Mould.*
Mr. John Lewis who Subscrib'd at *Denbigh.*
Mr. John Lewis of *Dolgelley Ironmonger.*
Mr. David Lloyd Rect. of *Llanddoget.*
Mr. Hugh Lloyd Rector of *Mould.*
Mr. Humphrey Lloyd of *Tyfos,*
Mr. John Lloyd of *Fronn Dderw,*
John Lloyd of *Rhiwedog* Esq;
Richard Lloyd Gwilym of *Harts Heath* Esq;
Mr. Richard Lloyd of *Carrog* Rector of *Knuckin*
Mr. Pierce Lloyd of *Jesus College Oxon,*
Robert Lloyd of *Dôly Glesyn Esq;*
Mr. Thomas Lloyd of *Plâs Powr.*
Mr. William Lloyd of *Cefn Meriadog Clerk,*
Mr. Thomas Lloyd of *Garth* in *Llanuwchllyn,*
Mr. John Lloyd Rector of *Llanddulas,*

Edwar

M

dward Maddocks of *Fronn Yw Esq*;
. Peter Maurice of *Maesmir* Dean of *Bangor*,
r. Edmund Meyrick Fellow of *Jesus Col. Oxon*
r. Edward Meyrick of *Jesus College Oxon*,
r. William Meyrick Rector of *Wytherin*,
r. Lewis Morris of *Holy Head Surveyor*,
r. Henry Morris of *Jesus College Oxon*,
obert Myddelton of *Chirk Castle* Esq; *M. P.*
r. John Myddelton Alderman of *Denbigh*,
r. Foulk Myddelton of *Jesus College Oxon*,

N

r. Robert Nanney of *Dolgelley*,
r. Nichols A. M. Schollar of *Jesus Col. Oxon*,
r. John Nicholl of *Tredonock*,
r. William Nicholl of *Tredonock*,

O

r. Humphrey Owen of *Dol y Serc*, Gent.
r. Humphrey Owen Fellow of *Jesus College Ox*
and other Fellows of the same, whose Names
r. Jenkin Owens of the same, (I had not.
r. John Owens of the same,
r. Owen Owens,
r. Thomas Owens, and
r. William Owens, all of the same *College*,
r. Hugh Owen of *Dolgelley Sadler*,
r. Humphrey Owen of *Dolgelley*, *Attorney at*
r. John Owen Tudor of *Ty Newydd* Gent. (*Law*

P

r. John Parry of *Brynn Bazon*,
homas Pardo D. D. Principal of *Jes. Col. Oxon*,

Mr. Hugh

Mr. Hugh Parry of *Jeſus College Oxon*,
Mr. John Parry of *Jeſus College Oxon*,
Mr. George Perrot Rector of *Celligare Glamorgan*
Mr. Daniel Peter of *Cardigan* Bookſeller, (*ſhire*
Mr. Thomas Peter of *Llandrillo*,
Mr. Robert Pierce of *Ceſn y Rûg*,
Mr. John Philips of *Jeſus College Oxon*,
Mr. Pêter Powell Rector of *Llanyckil*,
Mr. Anthony Pool of *Jeſus College Oxon*
Mr. David Prichard of *Jeſus College Oxon*,
Madam Price of *Derwen*.
Robert Price of *Plâs Côch*, Eſq;
Mr. Samuel Price Rector of *Llanmartin*,
Mr. David Prŷs Vicar of *Uſk*,
Thomas Puleſton of *Emerall*, Eſq;
Mr. Howell Pugh of *Dolgelley* Ironmonger,
Mr. John Pugh of *Garthmaelan Gent.*
Mr. Philip Pugh,
Mr. William Pugh of *Bala*,
Mr. Edward Price of *Llanbedr*,

R

Mr. David Rice of *Llwyn Jolyn*.
Mr. John Richard of *Dolgelley* Glover.
Griffith Roberts of *Blaen y Ddol*, Eſq;
Mr. Cadwaladr Roberts of *Filltir Gerrig*.
Mr. David Robert of *Llandrillo*.
Mr. Henry Roberts of *Jeſus College Oxon*,
Mr. Edward Roberts of *Coed y Bedo*.
Mr. Robert Roberts Vicar of *Chirk*.
Mr. John Roberts Vicar of *Eglwys Fâch*.
Rowland Roberts of *Llandrillo*.

Mr. Willia

Mr. William Roberts of *Jesus College Oxon.*
Mr. James Robotham Vicar of *Bassaleck.*
Mr. Edward Roberts of *Glann y Dwr* Gent.
Mr. Griffith Rowlands of *Balâ.*
Mr. Henry Rowlands of *Jesus College Oxon.*
Mr. Richard Rowlands of *Jesus College Oxon.*

S

George Shakerley of *Gwersyll* Esq;
Mr. Edward Samuel of *Jesus College Oxon.*
William Samuel of *Llangar.*
Mrs. Dorothy Samuel of *Chester.*
Mrs. Dorothy Samuel of *Oswestry.*
Magdalen Samuel of *Chester.*
Margaret Samuel of *Llangar.*
Anne Samuel of *Llangar.*
Barbara Samuel of *Llangar.*

T

Mr. Hempleby Thomas Vicar of *Christ-Church*
Hugh Thomas of *Llandrillo,*
Mr. John Thomas Rector of *Llangibbi,*
John Thomas of *Llandrillo.*
Mr. Maurice Thomas of *Bala.*
Mr. Maurice Thomas Vicar of *Lanternam.*
Mr. Theodorius Thomas of *Jesus College, Oxon.*

V

Mr. William Vaughan of *Nercwys.*
Mr. Thomas Vincent Rector of *Llanfachreth.*

W

Mr. Robert Watkin of *Nantlleidiog.*
Mr. David Williams Excise Officer at *Denbigh.*
Mr. Edmund Williams of *Aber Ystwyth.*

Mr. Edward

Mr. Edward Williams of *Kyffdi*.
Mr. Gibbon Williams of *Llangibby*.
The Rev. Jeffrey Williams Vicar of St. *Asa*
Mr. John Williams of *Jesus College Oxon*.
Mr. John Williams ibid.
Mr. John Williams A. B. ibid.
Mr. John Williams ibid.
Mr. John Williams of *Trevethin*.
Mr. John Williams of *Clocaenog*.
Mr. John Williams of *Fronn* A. B. of *J. C. Ox*
Mr. Robert Williams of *Bedwenni*.
Sir. GEORGE WYNNE of *Leeswood Baronet*.
The Rev. David Wynne Rector of *Maehynlla*
The Rev. John Wynne Rector of *Caer y Drudi*
The Rev. Edward Wynne Vicar of *Gwyddelwe*
Mr. Evan Wynne Vicar of *Llandrillo*,
Mr. John Wynne of *Jesus College Oxon*,
Mr. John Wynne of *Jesus College Oxon*,
Hugh Wynne D. D. Rector of *Dolgelley*,
Robert Wynne D. D. Chancellor of St. *Asaph*
Mr. Thomas Wynne Rector of *Llanrwst*,
William Wynne of *Maesy Neuadd* Esq; dece
Mr. John Williams of *Jesus College Oxon*,
Mr. Edward Winter of *Jesus College Oxon*,
Mr. William Wynne A. B. of *Jesus College Ox*
Mr. Richard Wynne of *Llanarmon* in *Yal*,
Mr. William Williams Rector of *Llan Elian*
Mr. Owen Williams Rector of *Llysfaen*,
Mr. John Williams who Subscrib'd at *Denbi*
John Wynne of *Tower* Esq;

Athravi

Gwir
ATHRAWIAETH
EGLWYS
LOEGR.

TRAETHAWD. I.

Ynghylch Gweddi.

EPHES. 6. 18.

An Weddio bób amſer, á phób rhyw Weddi a deiſyfiad yn yr Yſpryd, a bod yn Wiliadwrus at hyn ymia, trwy bób dyfal bara.

MAE Gweddi 'n Ddyledſwydd o gymmaint pwysfawrhydi i Griſtion, nad ellir byth fynegi ini'n rhy fynych angenrheidied a buddioled ydyw, na'n hannog yn rhy ddygn i ymarfer a hi trwy wir ſerch ac awyddfryd Yſpryd ol.

Y ffordd ar módd a drefnodd Duw ydyw, gael o honom y Bendithion a addawodd Duw eu rhoddi iw Wasanaethyddion. *Pôb rhoddiad daionus, á phob rhodd berffaith (*mĕdd St. Jaco) *oddiuchod y mae, yn deſcyn oddiwrth dâd y goleuni.* Nid oes ún Godidowgrwydd na Pherffeithrwydd naturiol ynom nad yw 'n tarddu oddiwrth Dduw, Nid oes dim angenrheidiol i gynnal ein bywyd, neu i wneuthur ein bywioliaeth yn eſmwythach ac yn ddiddanach ini, ac nid oes na Rhâd na Rhinwedd nad rhaid iddynt ddyfod oddiwrtho ef. Ac er y gall Efe roddi ini y cyfryw bethau, fel y mae 'n fynych yn gwneuthur, heb eu gofyn o honom, etto er mwyn ei, Ogoniant ei hun, ac er mwy lleſhâd i ninnau, F'a ordeiniodd Weddi megys mōdd cyffredin iw troſglwyddo ini; Canys wrth Weddio arno ef, yr ŷm yn Oſtyngedig yn cydnabod ein bōd yn ymgynnal arno ef, yr ydym yn addef mai efe yw Awdur a rhoddwr pōb pethau daiōnus, ac wrth hynny i'n gwneir yn deſmladwy o'r Dledſwyddau ſydd arnom iddo, f'a'ndyſgir i ymddiried ynddo, iw ofni ai garu, ac yn waſtadol i aberthu 'n Moliadau a'n Diolchgarwch am ei Haelioni tuagattom.

Gan fod Gweddi fel hyn yn peri cymmaint Anrhydedd i Dduw, a chymmaint Lleſhâd i Ninnau; Ni ddylai nëb feddwl y gallant gymmeryd eu dewis ai Gweddio ai peidio, o ran fod Duw yn gofyn hyn yn bendant megys Dledſwydd ſydd arnynt iddo. Ac am hynny y

Y

y darfu i'n Hiachawdr, nid yn unig lunio ffurf o Weddi iw Ddiſgyblion, ond mae hefyd yn galw arnynt yn fynych i arfer y Ddledſwydd hon yn y Geiriau hyn, *Gwiliwch a Gweddiwch*, Y rhai ſy'n arwyddoccau y dylid Gweddio 'n wreſog ac yn ddyfal-barhaûs; ac nid oedd yr hyn a gynghorodd efe iw Ddiſgyblion ddim ychwaneg nag a arferodd ef ei hûn; F'a weddiodd mor ddifrifol cyn ei ddioddefaint, â bôd yr Efangylwr yn mynegi ini, fod *ei Chwys Ef fel defnynnau Gwaed yn deſcyn ar y Ddaiar*, Luc 22. 44. Mae St *Paul* yn gorchymmyn i'r *Theſſaloniaid*, 1 Theſſ. 5. 17. *Weddio 'n ddibaid*; ac yn y Teſtyn yma dyſgir ini *Weddio bob amſer, â phob rhyw Weddi a dciſyfiad yn yr Yſpryd a bod yn wiliadwrus at hyn yma*; *trwy bob dyfal barà.*

Ond er bôd cynnifer o Orchymmynion penlant yn yr Yſgrythyr. mae rhai 'n chwannog wrthreſymmu nad oes na rhaid nac achos Weddio, o herwydd fôd Gwybodaeth Duw yn anfeidrol, F'a wŷr ein angenrheidiau cyn y gofynnom: mae hefyd mor rafuſol ac mor haelionus ai fôd yn rhoddi 'n ſyber-lan i bawb bi wir-fodd, ac nad rhaid gofyn iddo am y cyfyw bethau ag a welo ef yn gymmwys ac yn gyfaddas ini.

Yn wir pe na byddai na diben nac achos i weddio o'i blegyd ond er mwyn gwneuthur Duw yn gydnabyddus a'n angenrheidiau, ni byddai Gweddi ond ſwydd ofer afreidiol. Nid

oes nèb yn erfyn dim gan Dduw, heb gredu'n ddiyſcog ei fod Ef yn breſennol ym mhób mann, acyn gwybod pób peth; Ar Grediniaeth yma o'i fod yn gwybod ein angenrheidiau, ſydd gyſſur mawr ini i'n cefnogi iw goſod ger ei fron ef. Pan fo Dynion yn gofyn rhyw beth i Dywyſog Daiarol, rhaid yw cymmeryd poen a gofal, a chael cymmorth a charedigrwydd mawr i beri iddo jawn ddeall eu cyflwr, ac o eiſieu hyn mae llawer yn methu cael yr ymwared a allent oni bai hynny ei ddiſgwyl oddiwrtho; ond pan fo'm yn Gweddio ar Dduw Nefoedd a Dauar, mae ei hollawl-wybodaeth ef yn ddigon o ſiccrwydd i ni nad all na Rhagfarn na chamgymmeriaeth i rwyſtro ini gael ein derbyn a'n gwrando ganddo; Yr ydym wrth hynny yn gweddio arno, nid ar fedr athrawiaethu ei ddealltwriaeth ef, yr hon ſydd yn anfeidrol, ond i gynnhyrfu ei Ewyllys ef, i fod yn wiw ganddo ddiwallu 'n angenrheidiau, a chaniattau ini ymwared oddiwrth y blinderau ar trallodau nad allent mor digwydd arnom heb ei yſpyſol wybodaeth ai drefniad ef. Ac am Gymmwynaſgarwch a haelioni Duw, ai barodrwydd i wneuthur dajoni i blant Dynion, mae 'n eglur-ymddangos yn hyn, ſef, trefnu o hono ammod cyn eſmwythed ag ydyw Gweddi i gael o honom bób Bendithion a Chymmwynaſau ganddo; Nid yw 'n gofyn nac Aberthau drudfawr, na Gwaſanaeth llafurus, na hir ddiſgwyliadau diyſtyrus gennym, nid yw ond *goſyntwch*

rhoddir ichwi, Ceiſiwch, a chwi a gewch, Curwch, ac ſe agorir ichwi. Matth. 7. 7. *O bydd ar nêb eiſieu Doethineb, gofynned gan Ddiw* (mêdd St. Jaco) *a hi a roddir iddo.* Jaco 1. 5.

A oes nèb dan gyſtudd a blinder, mae Duw i hun yn dangos y ffordd iddo i gael Eſmwythâd, *Galw arnaſi yn Nŷdd trallod, mi a'th Wareddaf, o thi am Gogoneddi.* Pſal. 50. 15.

Ofer gan hynny i nèb ſeddwl na dywedyd fod Anfeidrol Wybodaeth a Dajoni Duw yn wrthreſymmau yn erbyn bod Gweddi 'n angenrheidiol; yn wir y Rheſymmau cadarnaf ar Cyſſuriadau goreu ydynt i'n cefnogi a'n cynhyrfu i ymarfer â hi.

Gan fod yn eglur wrth hynny mai Dledſwydd angenrheidiol ydyw, gwedi ei Seilio ar ddadcuddiedig Ewyllys a Gorchymmyn Duw, mae'n fy mryd wrth ſiarad am dani yſtyr y tri pheth hyn.

I. *A ddylem ni Offrwm ein Gweddiau yn ddigyfrwng i Dduw ei hûn, yntêu a ddylem ni ein hwylio yn gyntaf at ryw Aniannau Eraill o îs Graddau nag Ef.*

II. *Pa betha ddylai Teſtyn a Deſnydd ein Gweddiau fod, am ba bethau a thros ba Ddynion y dylem Weddio*

III. *Ac yna mi a ddangoſaf yn ddiweddaf, pa Nerth a grym ſydd mewn Gweddi, pan arferir hi fel y dylid.*

I. Mi a ymorolaf a ddylem ni Offrwm ein Gweddiau 'n ddigyfrwng i Dduw ei hun, ynteu

a ddylem ni eu hŵylio 'n gyntaf at ryw an-
iannau eraill o ïs graddau nag Ef.

Mae Chriſt ein Jachawdr, yr hwn a rodde
ini gynniſer o Reolau perthynaſol i'r Ddled
ſwydd hon, ac ſy 'n ein hannog mor ddiffiſo
i ymarfer â hi, yn ein hwylio 'n union a
Dduw ei hûn i wneuthur ein deiſyfiadau y
unig ger ei fron Ef. *Yn wir, yn wir, meddaf*
chwi, pa bethau bynnag a ofynnoch i'r Tâd yn ſ
Enw i, Efe au rhŷdd i chwi, Jo. 16. 23. Ac y
y Ffurf gyflawn ragorol o weddi a luniodd ef
ini, ſ'an dyſgir i wneuthur ein Erfynion a
Ein Tâd yr hwn ſydd yn y Nefoedd.

Ac nid yw hyn ddim ond y mae Duw ei
hûn yn ein gwahodd iw wneuthur yngeiriau
Daſydd, Galw arna ſi yn Nŷdd Trallod; Ar Pro-
phwyd *Joel* ſy 'n ſiccrhau ini, *Yr achubir pôb ûn*
a alwo ar Enw yr Arglwydd : Joel, 2. 32.
Ond mae Coel-grediniaeth orfodawg yn y
rhan fwyaf o Grèd ſydd tan rith talu mwy
Parchedigaeth ir Hollalluog Dduw, yn dwyn
oddiarno Ei wir Anrhydedd, ſef Addoliant
Gweddi, ac yn difuddio Dynion hefyd or hawl
ar Rhagorfraint gorau ſy 'n perthyn iddynt,
ſef cael neſſau yn ddigyfrwng at Orſeddfainc y
Gràs i anrhegu Eu deiſyfiadau au herſynion iddo
Ef, yr hwn yn unig a ddichon eu cymmorth
au diwallu.

Mae Eglwys *Rufain* yn Gorchymmyn iw
Deiliaid Offrymmu eu Gweddiau i Seinctiau ac
i Angylion, fel trwy eu Cyfryngdod hwynt, y
galler

ller eu hanrhegu 'n Weddeiddiach ac yn E-
eithiolach i'r Tad Nefol; Y Rheſwm gorau
ydd ganddynt i amddeffyn yr Athrawiaeth
ma, Yw cyffelybu Llŷs y Nef i Lŷs Tyw-
ſog Daiarol, lle nid all un Deiliad o iſelradd
yfygu dyfod ag un Erfyniad, er daed y fo y
neſwm am dano, hyd oni chaffer rhyw Ben-
adur Anrhydeddus, neu Wr mawr a fo yn
erthyn ir Tywyſog, iw ddwyn i mewn ac i
arad troſto. Ac am hynny, medd y Pabydd-
n, "a gaiff gwael Bechadur truan, ar yr hwn
mae dial Duw yn barod i ſyrthio, a gaiff
fath hwnnw ymwthio i wŷdd Duw, ai fli-
o Ef trwy bortreiadu, ei angenrheidiau: a'r
ael berthynaſau Cyffredin? Onid yw y rha-
oriaeth ar Pellder ſydd rhwng Duw ai Gread-
riaid yn anfeidrol mwy, a mwy arſwydus,
ag ſydd rhwng un Tywyſog Daiarol ar diyſt-
raf o'i gaethweiſion?

Mae o un Hen-Dadau 'r Eglwys eryſtalm o amſer, gwedi atteb eu Gwrth-reſwm yma, mae y rhagor ſydd rhwng y naill ran o'r Cyffelyb-eth ar llall yn dangos yn ebrwydd wanned anwireiddied o ymreſymmiad ydyw; Can-s er ei fod yn edrych megys Uchder mewn ywyſog, ac yn arwydd o'r Parch arſwydus dd gan Ei Ddeiliaid iddo, nad all un Erfyn-wr ddyfod o hono ei hun yn union ger ei on Ef, etto 'r gwir am hynny yw hyn, ſef, gall Tywyſogion gamgymmeryd, ac y gellir

St. *Ambroſe*

yn

yn hawdd eu twyllo, nid all eu Llygaid mo bod ym mhob mann, ymmhob Cwrr ou Llywodraeth, ac ni fedrant ganſod mo ddichellion a dirgel-fwriadau Dynion; mae'nt gan hynny yn dewis fod yn neſaf attynt y cyfryw ag y bo'nt yn meddwl y gallant yn ddioge ymddiried iddynt; y rhai ſydd ganddynt well cyfleuſdra i ymorol, ac iw gwneuthur eu hunain yn gydnabyddus ar cyfryw achoſion; Y rhai nidyw'n perthyn i Dywyſogion mo'u chwilio a'u holi 'n fanwl, o herwydd eu Mawrhydi, ac o herwydd bod yn angenrhaid iddynt ymgadw oddiwrth gyfeillach y cyfryw Ymbilwyr; Cymmwys gan hynny i'r fath Erfyniadau ddyfod trwy ddwylo Gwyr Llŷs, cyn cael eu croeſawu au derbyn ger bron yr Orſeddfainc; Ond nid felly y mae ym Mrenhinllŷs y Nef, mae Duw yn gwybod pob peth, ac nid rhaid iddo gael dim hyſpyſrwydd gan yr Yſprydion bendigedig ſydd o'i amgylch: ac nid oes ini fodd i gael yno neb Carediccach; a mwy Ewyllyſgar i wneuthur ini Ddaioni nag ydyw Duw ei hun. Mae Ei Ofal Ef yn cyrraedd at y rhai gwaelaf o'i Greaduriaid, ac am hynny nid rhaid uno'n y diyſtyra neu yr anghofia Ef mo'nom, f'a wnaeth bob peth a berthyn ini yn berthynaſau iddo 'i hun. Canys Gogoniant iddo Ef yw 'n Dedwyddwch a'n hiechydwriaeth ni.

Mae'r Nef yn wir ymmhell oddiwrthym, ond beth a ddywed y Pſalmydd? *Agos yw'r*

Arglwydd

rglwydd at y rhai oll a alwant arno, at y rhai a alwant arno mewn Gwirionedd. Pſal. 145. St. *Paul* a ddywed er cyſſur ini, *Yn Ghriſt Iesu, Chwychwi y rhai oeddych gynt ymmhell, a gaethpwyd yn agos trwy Waed Chriſt.* Eph. 2. . A thrachefn, *trwyddo Ef y mae ini ddyſod- mewn un Yſpryd at y Tâd.* Pa raid gan hyn- y ſydd ini Weddio ar Seinctiau ac Angyl- n, pan y mae gennym trwy Haeddedigae- au Chriſt cyn rhydded, Dyſodfa; a chyſtal wl i neſſau yn hyderus at Orſeddfainc y Gràs ſydd ganddynt hwythau eu hunain? *A bydd* nedd yr Hollalluog Dduw) *cyn galw o honynt mi atteb, ac â hwy etto yn llefaru, mi a wran- waf.* Eſay. 65. 24.

Ond mae 'r ffordd yma o Offrymmu 'n weddiau yn ôl arfer Ymbilwyr yn Llyſoedd ywyſogion, nid yn unig yn Waith Ofer, ithr hefyd yn fath anrheſymmol ac anghyf- ithlon o Addoliant. Rhyfyg mawr i ûn Eg- yys, beth bynnag a fo, yw gorchymmyn rdd newydd o Addoliant, na chynnwys yr chwaith nad yw Orchymmynedig neu Wa- ntedig trwy 'r Yſgrythyrau.

Ond nid oes nac Athrawiaeth nac Eſampl yr Yſgrythyr i ſylfaenu addoliant Seinct- u ac Angylion arnynt, mae'r fath Addol- nt yn lledratta oddiar Dduw yr Anrhydedd dd ddledus yn unig iddo Ef, ac am hynny ae 'n wrthwynebol i Reſwm ac i ddadcudd- dig Air Duw. Gweddi yw 'r Ddeiladaeth a

dâl Creadur iw Greawdr, gan gydnabod ei fod yn Cwbl-ymgynnal arno Ef. Mae hefyd yn arwyddoccau fod yn yr hwn y gweddïer arno amryw Briodoliaethau nad allant berthyn i neb ond i Dduw. Rhaid i ni gredu am yr hwn yr ydym yn galw arno, Ei fod yn gwrando ac yn deall ein Herfyniadau; Ond pa fodd y gall un hanfod nad yw ymmhob mann yn bresennol Wrando cynnifer o Weddiau ag a Offrymmir ar unwaith mewn cynnifer o fannau anghysbell? Heblaw hyn, nid yw Gweddi weithiau 'n myned ddim pellach na'r Meddwl, heb eu lleſaru ar Eiriau, ar hyn a leferir, oni bydd y Galon yn cyd-ymgyſſylltu ynddo, nid Gweddi yn wir ydyw, ond *ofer-ſain* neu ddwndwr Ofer, ac f' all pobl ofyn yn goel greſyddol y peth nad ydynt yn wir Ewyllyſgar iw dderbyn; Ond pa fodd y gall neb ddirnad hyn ond Chwiliwr y Calonnau ar Arrennau, yr hwn a ŵyr bob peth? Rhaid ini hefyd gredu yn ddiſigl am y ſawl y gweddiom arno, fod ganddo fodd a gallu i'n Cynnorthwyo ac i ddiwallu 'n angenrheidiau. Canys yr ydym yn rhwymedig i Weddio mewn Ffŷdd, â llawn ſiccrwydd a hyder, ac yn ddiammheuaeth; Ond pa ſut y gwyddom fod gan Seinctiau ac Angylion fodd i'n Cynnorthwyo, neu fod ganddynt fwy cymmeriaeth gydâ Duw i ddadleu troſom ni nag ſydd gennym ni ein hunain?

Gwir ydyw eu bod Hwy 'n gyfiawn, a ninnau 'n Bechaduriaid; Ond mae Duw, yr hwn ſy 'n

ſy 'n ein Gorchymmyn ac yn ein gwahodd i Weddio arno, yn gwybod ein bod felly; Ac mae 'r Ffurf o Weddi a gyfanſoddodd Chriſt ini, yn arwyddoccau fod arnom Ddledion y rhai yr ydym beunydd yn Gweddio am gael eu maddeu. a St. *Paul* ſy 'n ſiccrhau ini fod yr Hwn ſydd *un Arglwydd ar bawb yn Oludog i bawb o alwant arno.* Rhuf. 10. 12. *Os pecha neb* (medd St. *Joan*) *Mae ini Ddadleuwr gyda 'r Tâd*, nid Sainct neu Angel. *Ond Jeſu Griſt y Cyfiawn, ac, Efe yw 'r jawn tros ein Pechodau.*

Chriſt megys y mae 'n Dduw ac yn Ddyn, yw 'r unig un ſydd gymmwys i fod yn Eiriolwr troſom; mae ymmhob mann yn breſennol i dderbyn yr holl weddiau a offrymmer iddo, ar poenau a ddioddefodd Efe tros Bechaduriaid, yn rhoddi hawl iddo i ddadleu troſtynt, ac y mae 'n Eiſtedd ar Ddeheulaw Dduw i eiriol troſom, ac yn gwahodd yn raſuſol y ſawl ſy 'n *flinderog ac yn llwythog i ddyfod atto.* Pe bai 'r yſgrythyr gan hynny heb ddadcan yn bendant nad oes ond *un Cyfryngwr rhwng Duw a Dynion*, ſef, *y Dyn Chriſt Jeſu.* 1 Tim. 2. 5. Etto pwy a fyddai ſiccr o gael Ei Gariad Ef, a ymorolai am neb arall? Nid oes neb chwaith mewn Llŷs Dauarol a â i Ymymbil â Swyddogion o îs grâdd, pan fo 'r Tywyſog ei hun yn garedig iddynt; ai fab yn Eiriolwr troſtynt. Ond megys y mae Duw yn áchwyn trwy 'r Prophwyd *Jeremiah*, mae *Ei Bobl Ef* yn rhŷ chwannog *iw adael Ef, ffynnon y Dyfroedd byw, ac i gloddio iddynt eu hunain Bydewau,*

wau, ie Pydewau wedi torri, ni ddaliant Ddw
Jer. 2. 13.

Gwir ydyw fod y Sainct (neu y rhai Sa
ctaidd) fydd ar y Ddauar yn rhwymedig i w
ddio tros eu gilydd, ac f' all Gwr da ddeis
ar ei Garedigion weddio trosto, o herwydd ei f
yn gwybod eu bod yn ei glywed ac yn ei ddea
ac o herwydd fod Duw gwedi addaw eu gwrand
Gweddiwch tros ei gilydd, medd *St.* Jaco, Can
Llawer a ddichon taer weddi y Cyfiawn. Jaco.
16. Ac yn ddiammeu am weddiau y Sainct
y Ddauar, y dywedir yn Llyfr y Dadcuddia
fod *yr Angel yn eu hoffrwm ger bron Duw.* Dad
8. 3, 4.

Ac er bod yn gyffelybol fod y Seinctiau yn
Nèf yn Ewyllysio 'n dda iw Brodyr ar y Dda
ar, etto nid oes i ni fyl faen yn y byd i gredu
bod yn dadcan eu hewyllys da mewn Gweddia
trosom, neu y gallant fod mewn môdd yn y by
yn gynnorthwyol i ni. Ond mae i ni achos
feddwl, od oes ganddynt ddim gwybodaeth a
y pethau a wneir yma isod, Eu bod yn ans
ddog jawn wrth eu haddolyddion, y rhai, ta
rith gwneuthur Parch iddynt hwy, fy 'n lladra
tta oddiar Dduw Ei ddledus Addoliant ai A
rhydedd; A phe bai rydd-did iddynt i ddadca
eu Meddyliau iddynt, Hwy a'u mynegent Yn
eiriau 'r Angel wrth *St.* Joan, *Gwêl na wnelyc*
Canys cyd-wâs ydwyf iti, ac ith frodyr, addola Ddu
Dadc. 19. 10. 22. 9.

Fel hyn y mae 'n Eglur, mae at Dduw yn unig y dylem hwylio 'n Gweddiau, ac mae Chriſt yw 'r Unig Gyfryngwr ac Eiriolwr, yn Enw yr hwn, a thrwy haeddedigaethau yr hwn y dylid eu haberthu. *T'i yr Hwn a wrandewi weddi, attat ti y daw pob Cnawd.* Pſal. 65. 2.

Mi a af bellach ymmlaen i ymorol *yn ail*, am ba bethau a thros bwy y dylem Weddio.

Mae 'r Addewid yn wir yn ymddangos fel pe bai yn bendant, ſef y dyrŷ Duw ini pa beth bynnag a ofynnom gan y Tad yn Enw Chriſt, ond rhaid yw bod hyn o ammod yma 'n gynnwyſedig, ſef, gofyn o honom y Cyfryw bethau ag ſydd gymmwys i Dduw eu rhoddi, ac i ninnau iw derbyn. Oni chymmerwn ofal am hyn nid oes dim rhyfedd os gommeddir ein herfyniadau. *Gofyn yr ydych*, medd *St.* Jaco, *ac nid ydych yn derbyn, o herwydd eich bod yn gofyn ar gam, fel y galloch eu treulio ar eich Melus-chwantau.* Jac. 4. 3.

Hyn a ddylai fod yn ûn o ſiccr gynneddfau Gweddi; ſef, na Weddiom am ddim ond a fo Cyfion a chyfreithlon. Ped addawai Dywyſog daiarol i un o'i Ddeiliaid, fel y gwnaeth Duw i ninnau, na neccau Eſe byth mono, o ddim a ofynnai, f'a ddylid deall hyn am Erfyniadau rheſymmol; a phed Erfyniai y Deiliad hwnnw ryw beth drygionus neu anghyfreithlon, nid allai 'r Tywyſog a fyddai ganddo faint yn y byd o Barch i Gyfiawnder a Gwir Anrhydedd, lai nid yn unig na gommedd iddo 'i ddeiſyfiad,

Eithr

Eithr ei droi hefyd ymmaith trwy ddiyſtyrw
a digter.

Ac oni thybia Barnwr yr holl Fŷd fod id
ynteu gymmaint o achos i ofalu am Gyfiawn
ac Uniondeb ? Pwy bynnag a erfynio am dd
ganddo Ef nad yw 'n Cyttuno ymmhob Mô
a thrag'wyddol Reolau Gyfiawnder, nid all dd
gwyl amgen *na throir Ei Weddi yn bechod*, a
dŵg hi arno Drwm-bwys digofaint a Dial Du
Ni a ddylem Edrych ar Ogoniant Duw meg
prif-ddiben a Bwriad yr holl Weddiau a anrh
gom iddo, ac wedi yſtyr hynny yn ddyladw
ni a allwn yn gyfreithlon, ac mae 'n ddledus a
nom, Weddio am bob pethau angenrheidiol i
Heneidiau a'n Cyrph, ond bod hyn o ragor y
Nûll a ſut ein herfyn adau, ſef, pan Weddiom
Dduw am fendithion Yſprydol, am Gymmorth
on Ei ras a nerth Ei lan yſpryd, f'a ddylai
madroddiad ein Herfyniadau fod yn hŷt ac y
ddi-os, ai hanfon a ddylid at Orſeddfainc y Gr
a Chyflawn ſiccrwydd y Cânt eu gwrando a
Caniattau. Ond pan weddiom am bethau
Amſerol, am Jechyd, Rhydd-did, Lluniaeth
Dillad, pethau a wnant ein bywyd yn gyſſuru
ac yn gyfleus ini, rhaid ini ddaroſtwng y Cw
iw Ewyllys bendigedig Ef, ac na ofynnom Mo
ynt ar Ammod yn y Bŷd, ond fel y gwelo E
Eu bod yn gyfaddas ini.

Y Drefn yma o Weddio 'n gyntaf am Fend
thion Yſprydol ac wedi hynny am rai Amſero
a ddyſgwyd ini gan Grift ei hun, yn y Ffu
gyflaw

lawn o weddi a roddes Efe ini yn ei Efen-
lle 'r ydym yn Gweddio ar Dduw am roddi
y Cyfryw feſur o'i ràs ag an Cynnorthwyo
neuthur Ei Ewyllys ar y Ddaear mor bur-
ragrith ag y mae'r Seinctiau ar Angylion yn
ddhau iddo yn y Nef; rhaid ini wneuthur
n cyn y rhyfygom ofyn iddo 'n bara beuny-
ol, Canys yn wir ni byddem deilwng i fyw
i byddem Ewyllyſgar i ufuddhau i Ewyllys
hwn, ſy 'n rhoddi ini ein bywyd a'n Cyn-
aeth. Mae Chriſt héfyd yn gorchymmyn
roddi 'r lle Cyntaf i berthynaſau ein Henaid,
laen y pethau a berthynant ir Corph. *Cei-
h yn gyntaf Deyrnas Dduw ai Gyfiawnder Ef*;
th. 6. 33. Ac wedi diogelu yr hawl honno,
y Calyn yr Addewid am Fendithion Amſe-
y pethau hyn á roddir ini yn Tchwaneg.

Mae ini Eſampl o hyn yn yr Hen Deſtament:
Orchymmynodd Duw i *Solomon*, ofyn rhyw
d iddo, ac f' ai rhoddai iddo. Ac er bod
ud, Anrhydedd, Hir-Einioes, Buddugoliaeth,
Brofedigaethau mawrion, a phob ûn o hon-
yn ddigon i ddenu Ewyllys Tywyſog Je-
c ar eu hol, er hynny F'a Etholodd Ddoe-
neb o flaen y Gwbl, fel y gallai 'n ffyddlon
lawni Ei Ddledſwydd yn y ſwydd ar Alwe-
aeth uchel y gyſodaſei Duw Ef ynddi, ac am
euthur o hono Cyſtal dewis yn Ei Erfyniad
Dduw, F'a gofodd yr Hyn a Ewyllyſiodd,
neb law hynny, F'a gofodd yr holl Fendithion
ill hynny cyn gyflawned, ai fod yn rhagoi

ar

ar bob Tywyſogion a fu oi flaen ac o'i ol yn y rheiny hefyd.

Ond Pan ofynnodd Mam meibion *Zebedæus* i'n Jachawdwr y ddau le uchaf yn Ei Deyrnas Ef iw Dau Fab, Hi a gafodd ei gommedd a cheryddu hefyd: Canys er bod yn ddled arnom geiſio ac erfyn am Deyrnas Dduw, etto f'a fyddai Griſtion goſtyngedig bodlon ir breſwylfod iſaf ynddi.

Fel hyn y mae pan ofynnir pethau da o Feddylfryd diffaith neu er mwyn dibenion drygionus. Yr oedd *Simon Magus* yn ddigon chwannog i gael Dawn yr Yſpryd glân; ac f'a roddaſei ir Apoſtolion Arian am Ei rhoddi iddo, ond yr achos o hyn oedd Cybydd-dod neu wag Ogoniant; yr oedd yn gobeithio cael clôd neu Elw mawr oddiwrth nerth a Gweithrediadau 'r Yſpryd glân.

Am hynny ynteu Rheol ficcr yw hon yn ein holl Erfyniadau, o ba fath bynnag y bo'nt, ſef, na ddeiſyfom ddim gan Dduw, ond a fo er Gogoniant iddo Ef, neu yn eglur-gyttuno a'i Ogoniant Ef: Gofyn o honom bethau da o'u rhan eu hunain, ac er mwyn bwriadau a dibenion daïonus.

Fel hyn yr yſtyriaſom Weddi megys y mae 'n perthyn i angenheidiau ein Cyrph neu 'n Heneidiau 'n hunain; Ond mae 'r Ddledſwydd yn ſwy Cyrrhaeddgar nag y gallir Ei Chyfyngu o fewn terfynau 'n bûdd ni'n hunain yn unig. Mae 'n ymeſtyn ac yn ymledu cymmhelled ag y

mae Cariad ei hun yr hon ſy 'n peri i ni
wennych daioni a dedwyddfyd i holl ddynol
w: Ein Jachawdr, yr hwn a fynych ymar-
rodd ar Ddledfwydd hon a gwir ſerch ac a-
yddfryd Yſprydol, a weddiodd nid troſto i hun
n unig, ond hefyd tros y rhai a raddaſei Duw
do, tros Ei Dliſgyblion ei hun yn enwedig, a
ros bawb *hefyd a gredent ynddo Ef trwy eu by-*
adrodd hwynt. Jo. 17. 20. Ac ni orphywyſodd
ſe ar hynny, eithr, E.ſe a weddiodd tros Ei
lynion, Ei Elynion chwerwaf ac atcaſaf a
ynny pan oeddynt yn ei ſerthyru trwy eitha
llidiawgrwydd a'u Creulondeb Melldigedig,
Dad maddeu iddynt, Canys ni wyddant beth y
aent yn ei wneuthur. Luc. 23. 34.

Yn hyn y gadawodd Efe ini Eſampl fel y di-
nem Ei ol Ef, ac yr ufuddhaem ir Gorchym-
yn a roddaſei Efe or blaen ini: *Yr ydwyſi yn*
wedyd wrthych chwi, Cerwch eich Gelynion, bendi-
wch y rhai ach Melldithiant, gwnewch dda ir ſawl
h Caſânt, a Gweddiwch tros y rhai a Wnêl niweid
hwi ac a'ch Erlidiant. Math. 5. 44.

Felly mae 'u rhaid in Gweddiau fyned Cym-
helled an Cariad, a Hon, ſy 'n ein rhwymo i
euthur dâ i bawb, yn enwedig ir rhai ſydd o Deulu
Fyddd: Wrth hynny rhaid ini weddio tros
b Dyn; yn gyntaf, tros Grift'nogion a cha-
dig'on, ac yna tros Ein Gelynion; tros y
wl ſy 'n anghyttuno à ni o herwydd bûdd
u Grediniaeth; tros Juddewon, Tyrciaid,

Anffyddlonion a Hæreticiaid ; ac yn gyffre
hol tros holl Ddynol ryw.

Mae St. *Paul* yn Cynghori *Timotheus, fod y*
biliau, Gweddiau, Deiſyfiadau, a thalu diolch
bob Dyn, yn ddinam, heb eſgeuluſo neb ; o
mae 'n rhoddi 'r blaenoriaeth yn ein Gweddi
i *Frenhinoedd, a phawb ſy' mewn Awdurdod* ;
ſawl ſydd ganddynt fwyaf modd a gallu i wne
thur Mwyaf o Ddaioni a gwaſanaeth i ddyn
ryw, er lleſhâd amſerol a thragywydol iddy
Mae 'r Apoſtol yn deiſyf Gweddiau 'r E
wys troſto 'i hun, fel y Cynnorthwyid E
gyflawni ei Weinidogaeth y mòdd y bydd
mwyaf buddiol iddynt ; A hyn oedd arfer
Chriſt'nogion cyntaf, ſef Offrwm eu Herfy
iadau Cyhoedd tros y ſawl oedd yn gwyl
ac yn gofalu tros eu Heneidiau, megys
gwnaethpwyd tros St. Petr, pan fwrieſid
Yngharchar ; *Gweddi ddyfal a wnaethpwyd*
yr Eglwys at Ddduw troſto Ef, Act. 12. 5.

Ac mae Rheſwm ac achos da i Wedd
'n enwedig tros Weinidogion Eglwys Ddu
o herwydd fod Jechydwriaeth holl Ddyn
Ryw yn ſefyll ar lwyddiant Eu llafur hwyn

Gan fod y Rheol cyn eglured yn yr Yſgr
thyr, y dylem Weddio tros bob Dynion, tr
Elynion cyſtal a charedigion, tros y ſawl ſyd
or tu allan i Braidd Chriſt ; yn gyſtal ar rh
ſydd o'r tù mewn iddi. F' allai Ddŷn fedd
y byddai hawdd jawn i Griſtnogion gyttu
au gilydd ynghylch y ſawl y mae'nt yn rhw

medi

edig i Weddio troſtynt; ac felly y gwnaent
n ddiammeu, pe medrai pawb o honynt eu
ddloni eu hunain mewn Ffŷdd ac Ymar-
eddiad, i lynu wrth *yr hyn a 'ſgrifennwyd.*
nd mae mâth ar Grediniaeth yn cael cryn
yſg yn y Bŷd, ar hon o herwydd y Rhîth
nwioldeb Caredigrwydd ſydd ynddi, a gai
igon o groeſaw a chymmeriad gydâ Phob
nion da, pe bai Air Duw yn ei chynnwys
yn ei chennadu. ſef, y dylid gwneuthur
veddiau tros y Meirw cyſtal â throsy byw.
nd ni roddes yr Yſpryd Glân ini 'n unlle ddim
ſſorddiant ynghylch hyn: A chan fod yn
ur yn yr Eſengyl, nad oes onid dau gyf-
r ar ôl y fuchedd hon, ûn o Ddedwyddwch
llall o Drueni, a phôb ûn o honynt i bar-
: 'n drag'wyddol, gwaith ofer ini obeithio
gallwn ni trwy 'n herſyniadau newid Barn-
gaethau pennodol ac Ordinhadau Duw, i eſ-
vytho neu luniaru dioddefiadau, llai o lawer
gallwn hollawl-waredu y ſawl a gaeodd Ef
gloedig Yngharcharau 'r Erchylldod eithaf.
Mae 'r Pregethwr yn dwedyd ini mai *lle y*
hio y Pren yno y bydd Efe, pa fann bynnag
y digwyddo; gan arwyddoccau fod cyſlwr
n, ar ôl ei ymadawiad oddiyma, yn anghyſ-
vidiol. Oni thyccia Gwaed Chriſt am Dru-
edd i'r ſawl ſy 'n meirw yn ddiedifeiriol,
anfad ryſyg yw ini Drueiniaid pechadurus
ſio 'r fath beth trwy 'n Gweddiau. Mae
riſt ein Jachawdr yn ein Cynghori i *gyttuno*

a'n gwrthwynebwyr arfŷs, tra y byddom ar y ffordd i wneuthur ein Heddwch à Duw yn y bywyd yma, Canys os *Efe a'u teifl i Garchar*, Nid oes dim *dyfod oddiyno hyd oni thalom y ffyrling eitha* Matth. 5. 25, 26. Hynny yw, nid oes modd yn y Bŷd i gael ymwared oddiyno' Canys onid allwn fodloni Cyfiawnder Duw am ûn o'r Pechodau, o ba le y bydd modd i ni i allu talu 'n holl Ddled?

Mae rhai 'n wir a daerant fod Cyflwr canolig o Burdan rhwng Nef ac Uffern, Ond nid yw ddim ond dychymmyg y fawl fy 'n ceisio bûdd oddiwrtho: Nid oes ſon na chrybwyll am y fath le yngair Duw, ond mae holl Ergyd yr Yſgrythyr a Barn Prif-Dadau 'r Eglwys yn y gwrthwyneb.

Yn y bywyd hwn yn unig y mae ini gael ein pureiddio; mae 'n danfon Cyſtuddiau a Gorthrymderau ar Ei Wasanaethyddion iw profi a'u puro. *Aur* medd mab *Sirach, a brofir yn Tân, a Dynion Cymmeradwy yn ffwrn gofidiaeth* Eclus. 2. 5. ac mewn Gwirionedd, nid oes dim a ddichon lanhau 'r Enaid, on'd Gwaed *Jeſu*. Os bydd gennym Ffŷdd yn *ei Waed Ef, f'a bura 'n Cydnabod oddiwrth Weithredoedd meirwon i Wasanaethu y Duw byw*, medd yr Apoſtol wrth yr Hebreaid. *Heb.* 9. 14. Am hynny ynteu Cymmerwn Ofal am lanhau a phuro ein Heneidiau oddiwrth Bechod, cyn ein galw ger bron Gorſeddfaingc Duw; ac i'r perwyl hwnnw, Offrymmwn Weddiau taer-wreſog

troſom ein hunain a thros bob Dŷn byw.
nd am y Meirw mae 'r *Nôs wedi dyfod ar-*
at, y pryd mèdd ein Jachawdr, *Na ddichon*
weithio. Nid oes iddynt bŷth foddi wneu-
ur cu cyflwr yn well nag oedd y munyd yr
nadawſant, ac Ofer i Ninneu geiſio gwneu-
ur hynny troſtynt. Os dà y gwnaethant,
ae'nt yn ddiammeu gwedi mvned i fywyd
ag wyddol. Ond os drwg, *Ni welant byth*
nyd, Eithr y mae Digoſaint Duw yn aros yn
agwyddol arnynt.

Er mwyn eich Cefnogi a'ch Cyſſuro i ym-
fer ar Ddledſwydd hon, rhaid i mi, yn *dry-*
dd, ddangos ar fyrr i chwi pa nerth a Grym
mewn Gweddiau pan wneler hwynt am
cyfryw bethau a thros y fath Ddynion, ac
y cyfryw fodd ag y dylid.

Mae gennym nid yn unig yr Addewidion
aſuſaf a all fod i'r Ddledſwydd hon, ond yr
ym yn darllen hefyd yn yr Hèn Deſtament
Eſſeithiau rhyfeddol a darddedd eddiwrthi.
r ddifritol Weddi *Elias*, f'a gaeodd yr Ar-
wydd y Nefoedd fel *na bu Gwlaw ar y Ddai-*
tros dair blynedd a Chwe mis. A thrachefn
n Weddiodd Efe ar Dduw am droi ymaith
Farnedigaeth drom honno, *I' Nêf a roddes*
law, ar Ddaiar a ddûg Ei ffrwyth. Jaco. 5.
. Pan oedd *Jehoſaphat* wedi ei amgylchu
n Ei Elynion, ac heb ddim Gobaith o am-
leffyn ei Bobl rhag trèch plaid, pan na's
wyddai beth iw wneuthûr, *Ei Lygaid oedd ar*
Ddaw.

Dduw. F'a ymbiliodd ag Ef trwy Weddi, Duw a ddanfonodd anghydfod ymmhlith E Elynion, *a hwy a helpiasant ddifetha pawb gilydd*. 2 Chron. 20. 12. 23.

Mae llawer o Esamplau or fath yma yn y Ysgrythyr yn dangos y modd y ffynnodd Gweddi gyda Duw am Fendithion a Thrugaredd au amserol. Ond mae ei Grym hi yn ficcr ddi siomedigaeth pan wneler hi fel y dylid, a radau Ysprydol. Yna mae'r Addewidion yn ddi os *Gofynnwch a rhoddir i chwi*, Nid oes ini le fethu oni ofynnwn yn y Cyfryw fodd nad y Weddus i Fawrhydi Duw wrando arnom, O daw Dynion at Orseddfainc y Gras, fel y gwnan yn rhŷ fynych, pan fo'nt yn ertyn am bethau Ysprydol, â deisyfiadau oeraidd, ac a meddyliau gwibiog Cyfeiliornus; pan fo'nt mor ddifatter a chanddynt cyn lleied parch i Dduw ac iw Ddoniau, pa fodd y disgwyliant amgen na chant eu diystyru au gwrthod gan Dduw?

Mae 'n Jachawdr yn yr Efengyl yn portreiadu taerni y Weddw Dlawd megys Esample ini iw dilyn, yr hon a flinodd ei Barnwr ac a'i cymmellodd i wneuthur iddi gyfiawnder yn derbyn ei gwrthwynebwr er na's gwnaethai oni bai hynny er na Duw na Dŷn. Os disgwyliwn ninnau i'n Herfyniadau ffynnu, rhaid ini fod fel hithau, ni ddylem mor digalonni er cael ein naccau ychydig o weithieu, cithr po mwŷaf a fo y rhwystrau ar anhawsderau

erau i'n herbyn, rhaid inigalyn ar ein hym-liau o hynny yn fwy dygyn a difrifol.

Er bod Chrift yn barod i wneuthur pob ymmwynafau dà i bób màth ar Ddynion, to f'a welodd ynteu yn ddà unwaith brofi fŷdd ac ammynedd y Wraig o *Ganaan*, y o cyntaf yr ymbiliodd Hi ag Ef, *Trugarha thyf, O Arglwydd Fâb Dafydd*, nid attebodd fe iddi un Gair; a phan adnewyddodd hi dra-nefn yn ei Herfyniad. *Arglwydd cymmorth fi*, a roddes iddi'r fath atteb ac y buafei y an fwyaf o Wragedd yn digio'n aruthr o'i egyd; *Nid cymmwys*, meddai Efe, *cymmer-bara'r Plant, ai fwrw i'r Cŵn.* Ond hi a naeth Hi well defnydd o honaw, ac a gym-erth y cyfleufdra hwnnw i ddadcan ei fyn-ed o'i Alluowgrwydd ai Fawrhydi Ef, ac i Hanneilyngdod ei hunain. Ac ar hyn-y Hi a gafodd y peth a ofynnodd, a anadiad helaeth heblaw hynny i gael pa beth ynnag a ddymunai, *O Wraig mawr yw dy ffydd, bydded i ti fel yr wyt yn Ewyllyfio.* Mat. . 22. 28.

Y Pethau hyn a fgrifennwyd er addyfg ini, inwyn bod o honom yn dduwiolfryd ac yn ifrifol yn ein Gweddiau ar Dduw, dadcan honom trwy'n taerni mor Werthfawr yn golwg yw'r pethau'r ydym yn eu gofyn; yna ni a allwn wybod yn ddiammeu, *Beth nag a ofynnom gan y Tâd yn Enw Chrift y dd Efe ini.*

Traethawd II.

TRAETHAWD. II.

Am Ympryd.

MATTH. 9. 15.

Ar Jesu a ddywedodd wrthynt a all Plant yr Ystaf Briodas alaru tra fyddo 'r Priodfab gydâ hwy Ond y Dyddiau a Ddaw, pan ddyger y Priod oddiarnynt, ac yna yr Ymprydiant.

MAE bywyd Dŷn yn Cwbl-y gynnal ar Ewyllys yr Hollallu Dduw; mae yn ei hyftyn neu ei byrrhau yn ol ei feddwl b digedig ei hun; pan *ddygo yma ein hanadl y trengwn, a dychwel in llwch.* Pſal. 104. 29. Ni ddylem edrych ar yr Amſer a ganiattaodd D i ni yma ar y Ddaear, megys Talent or wert fawroccaf a roddwyd i ni tan ymddiried, n er mwyn Eſmwythder a diſyrrwch, neu w orchwylion ofer, ond gan yſtyr fyrred ac anſic ed ydyw, ni a ddylem ymegnio 'n ofalus i wne thur y goreu o bob munud a llafurio 'n ddiw yn y Cyfryw Ddledſwyddau a Gweithredoe Crefyddol, ag a fo Cyfatteb o Li ddiben a bwri ein Creadigaeth, ac ym Wneuthur yn Gyfry

g ſydd wedi eu *hadgenhedlu trwy 'r Yſpryd Glân*, n gwneuthur yn *Greaduriaid Newyddion.*

Mae 'r Apoſtol yn dwyn hyn ar gôf i ni yn i Epiſtol at yr *Epheſiaid*, 2. 10. *Gwaith Duw ym gwedi cin Creu yn Ghriſt Jeſu i Weithredoedd , y rhai a rag-ddarparodd Duw, fel y rhodiem ynddynt.* Dledſwyddau a Gorchwylion ein nſtaidd Greſydd a elwir yn fynych yn yr Yſ- ythyr yn *Weithredoedd da*, ac ſ an Cynghorir ddifrifol i ymarfer â Hwynt: Ac yr ydym y *Proteſtaniaid.* Yn enwedig y rhai ſydd o *glwys Loegr*, mor ddiragrith ac Mor Galonnog ymegnio ani danynt ag y gall ein Gwrthwy- bwyr o *Eglwys Rufain* wneuthur, Er Eu bod wy 'n gyfredinol yn barnu arnom ni megys elynion a Dirmygwyr y Cyfryw weithred- dd: Mae hyn yn wir o ragor rhyngom, ſef, bod ni wrth Bregethu a mynych gyhoeddi d Gweithredoedd da yn angenrheidiol, yn yr Amſer yn rhybuddio 'n Pobl na Chyfrifont onynt, eu hunain yn haeddedigol o'u her- ydd, ac na ddiſgwylion na Maddeuant Pecho- u na Bywyd trag'wyddol oddiwrthynt.

Canys mae 'r yſgrythyr yn dangos yn Eglur d ein Cyfiawnhad a'n Hiechydwriaeth yn ſef- yn hollawl ar raſuſol Drugaredd Dduw yn Fab Chriſt Jeſu. Ar Gweithredoedd da a elom (fel y dyſg St. *Awſtin* i ni) ydynt wythau ac Effeithiau Gras Duw; Nid peri Gras, d tarddu oddiwrth ras y maent. Mae Cym- int rhyngddynt a'n Cyfiawnhau ni, a bod yn

rhaid i Ddŷn gael ei gyfiawnhau 'n gyntaf trw
ffŷdd Cyn y gallo 'u cyflawni wrth yr hyn
mae 'n Eglur mai i Dduw yn Unig y mae Ma
yn ddledus am y peth a wnelom ni 'n dda,
nid oes gan y Cyfiawnaf ar y Ddaear ddim
Eiddo 'i hun i Ymffrofto o honaw, ond gorfy
arno ddywedyd gydà St. *Paul*, *Trwy Râs Dun*
ydwyf, yr hyn ydwyf, 1 Cor. 15. 10.

Ond er hyn ei gyd, mae 'n rhaid i ni fo
mor Serchog-awyddus i Weithredoedd da, à p
baem yn wir yn haeddedigol o'u herwydd
Canys heb hyn, pa fodd y gallwn ni 'n dang
ein hunain yn blant i Dduw, oni chanlynwn
Rheolau, ac onid ufuddhawn ir Cyfreithiau
drefnodd Duw i ni? Pa fodd y gallwn ni
hunain nac Eraill wybod fod gennym wir à b
wiol Ffŷdd, or fath ag a fyddo Cymmeradw
gan Dduw er Cyfiawnhâd i ni, oni ddŵg
allán ffrwythau Cyfiawnder? Ac er na haedde
ni na chlod nac Anrhydedd oblegyd ein Gwe
thredoed da, f'a ddylai hyn fod yn ddwyfa
na rhefwm yn y byd in hannog iw gwneuthu
fef, fod Gràs Duw yn cael ei fawrygu o'i he
wydd, ac wrth adael in *Goleuni lewyrchu felly g*
bron Dynion, yr ydym yn cynhyrfu eu Calonn
i ogoneddu ein Tad, yr hwn fydd yn y Nefoedd.

Ac nid yw afles yn y byd i ni, ac ni ddyl
chwaith fod dim Anghyffur i ni, i fyned rhago
yn ein hufudd-dod, o ran nad allwn trwy
Gweithredoedd goreu a wnelom haeddu dim
law Dduw, oblegyd ni a gawn dderbyn mw

Gwob

Gwobr o ran ein Ffŷdd os bywiol a diragrith a ydd, nag a allai 'n Gweithredoedd haeddu, pe wneid hwynt trwy ein Nerth ein hunain, neu u bod heb law hynny yn gwbl berffaith.

Mi a dybiais yn gymmwys yn hyn a fann, arad Cymmaint a hyn am weithredoedd da yn yffredinol; Gan fod llawer yn edrych ar Ymryd; yr hyn yw Teſtyn y Traethawd yma, negys Gwaith haeddedigol ac yn rhoddi hyder nawr arno megys Modd iw Cyfiawnhau.

Felly 'r Pharifæad yn y Ddammeg, ymmhlith mryw bethau Eraill yr oedd yn Ymffroſtio o onynt, Gwedi dadleu nad oedd na *thraws, nac gbyfiawn, na Godinebwr*, mae 'n dyfod iw gyawnhau ei hun ar Ddledſwyddau pennodol, ac hon yn gyntaf; *yr wyf yn Ymprydio ddwywaith yr Wythnos, yr wyf yn dcgymmu Cymmaint oll a feddaf.* Luc. 18. 12. Mae 'n Jachawdr yn ydnabod Ei fod yn gwneuthur yn dda yn y ethau hyn, ac yn ei oſod yn Eſampl o Ddŷn d oedd ei Gyfiawnder yn gwneuthur dim daini iddo, o ran Ei fod yn ei gyfiawnhau ei hun ni, yr hon gan nad oedd ond rhad rodd a weithrediad Gras Duw, Eitha Balchder a hyfyg i neb feddwl y gallai ei gwneuthur trwy Nerth ei hunan.

Ac er bod ir Publican o herwydd Ei ſwydd wer a Brofedigaethau ac odfeydd i wneuthur wg, ac mae 'n debygol jawn wneuthur o hoddefnydd o honynt, Etto er mwyn Ei Oſtngeiddrwydd ai Ofid am Bechod, ac o ran Ei

fod, yn adeiladu ei holl Obaith yn unig ar Dr
garedd Dduw, F'aeth adref gwedi ei gyfiawnha
pan gafodd y llall Ei wrthod gyda'r holl weithre
oedd da yr oedd yn Ymorfoledd u o'u plegyd.

Mae 'n Eglur gan hynny, megys wrth amry
fannau Eraill or Yſgrythyr, felly hefyd wrth
Ddammeg yma, fod Ympryd pan Ei Cyflawner
y dylid yn waith da, ac wrth hynny yn Ddle
wydd Griſt'nogol. Ac fel y gallom Ei chyflaw
yn ddyladwy Mi a'i hyſtyriaf yn y Modd ym

I. *Mi a ddangoſaf ymmha beth y mae Nat
Ympryd Crefyddol yn ſefyll ; ac er mwyn pa ddibe
ion a Bwriadau y dylem ei harferu.*

II. *Pa rai yw 'r Amſeroedd ar Tymmhorau
faddas i gyflawni 'r Ddledſwydd hon.*

III. *Mor ffynnadwy ydyw gydâ Duw, a pha D
niau llesfawr a darddaſant oddiwrthi.*

I. Mi a ddangoſaf, ymmha beth y mae N
tur Ympryd Crefyddol yn ſefyll ; ac er mw
pa Ddibenion a Bwriadau y dylem ei harferu.

Ympryd yw gommedd ini 'n hunain
Hymborth an difyrrwch arferedig. Nid yd
fel y chwennychai lawer Ei bod ; nid ymgad
oddiwrth ryw fath ar luniaeth ydyw, meg
gochel bwytta Cig, a chymmeryd rhydd-did
y Cyfamſer i arfer pethau Eraill Mor flaſus
Genau ac Mor faethol ir Corph ag ynteu ; Ei
peidio a bwytta nac yfed dim nes y darfydd
Amſer goſodedig i ymprydio.

Nid yw 'n Jachawdr yn gwneuthur dim r
goriaeth rhwng rhywiogaethau Bwydydd w
att

teb i Ymoſyn Diſcyblion *Joan*; Mae'n Cydnabod nad oedd Ei Ddiſgyblion Ef yn Ymprydio beth bynnag a fwyttaent neu a yfent; nid gan hynny 'n gwadu Mor hyn a ddywedwyd yn eu herbyn, ond mae 'n amddeffyn Eu iniweidrwydd, ac yn eu heſguſodi am beidio mprydio ar Rheſwm yma, ſef, am *fod y Priſ-fab yr Amſer hwnnw yn eu plith.*

Wrth hyn Gwir Ympryd yw ymgadw oddirth bob Math ar luniaeth, ac oddiwrth bob Iwyniant a difyrrwch Cnawdol, ond nid yw on o honi ei hun ond Gweithred ddi-ddrwg di-dda; Hi a all ſod yn dda neu yn ddrwg, n Awdurdodawl neu 'n Greſyddol; fel y gwyer pa fath ydyw, rhaid yw Yſtyr y Dibenion Amgylchiadau yr Ymprydir oi plegyd. F' l rhai Ymprydio o ran eu Hiechyd, ac nid yw ynny weithred dda mewn un modd amgench nag y mae Cymmeryd Phyſygwriaeth neu mgampio felly. Weithieu mae 'r Penllywiawwyr yn gorchymmyn Ympryd neu ymgadw ddiwrth Ymborth, heb un bwriad yn y byd nd i arbed y lluniaeth, megys pan ſo Tref neu dinas yn Warchaedig, neu yn amſer prinder Drudaniaeth anferthol. Yn ein Gwlad ni 'n unain f' a wnaed Cyfreithiau or fath yma er wyn Ceſnogi Pyſgodwyr ac amlhau Morwyr. c mae Ufudd-dod ar y Cyfryw achoſion yn dledſwydd yn rhwymo 'r Gydwybod; ond d yw yr hyn a orchymmynir ond er lles, ir ladwriaeth, ac am hynny f' a ellir yn gymmwys

mwys ei alw yn Ympryd Awdurdodawl. I mae Ympryd Crefyddol yn gofyn Dibeni Crefyddol yn gyſtal a rhai Cyſion, Cyfreithlo Ar tri hyn yw 'r Dibenion Crefyddol yr Y prydir o'u plegyd.

I. Pan Ymprydiom ar fedr Ceryddu a Ma weiddio 'r Corph, ai ddwyn i Ymddaroſtwng Yſpryd, a'i gadw tan reolaeth Crefydd a Rh ſwm. Fel hyn y byddai St. *Paul* yn arferol gyſtuddio 'i hun, 1 Cor. 9. 27. *Yſy wyſi 'n C yi ſy Nghorph, ac yn ei ddwyn yn gdeth, rhag i mewn un modd wedi imi bregethu i Eraill, fod hun yn anghymmeradwy.*

II. Ail diben Ympryd Crefyddol yw, pan Ym prydier er mwyn derchafu a bywiogi 'r Enai fel y byddo 'n gyflymmach yn dduwiolach yn Wreſoccach mewn Gweddi, neu 'n fwy af ud ac yſtyriol ym mhob gorchwyl Yſpryd wrth attal y Tueddiadau ſyrthion ar trymd Yſpryd ſy 'n tarddu 'n ſynych oddiwrth lawn der a digonedd o luniaeth.

Fel hyn y darllennwn fod y Prophwydi Athrawon yn *Antioch* yn Ymprydio pan dde byniaſant Orchymmyn gan yr Yſpryd glân, *neilltuo* Barnabas *a* Saul *ir gwaith y galwaſei i hwynt iddo.* Act. 13. 2. Yn ddiammeu Hwy Ymprydiaſant er mwyn hyn, fel fel y gallen trwy eu difrifol Weddiau au Hertyniadau yr Hollalluog Dduw, gael gwybod Ei Ewyll bendigedig Ef am y Dynion hynny.

Yn y Bennod neſaf (*Ad.* 23.) Ni a welwn y dau Apoſtol hynny yn arfer yr ûn moddion y Cyffelyb achos. *Gwedi iddynt ordeinio Henaid ym mhob* Eglwys *a Gweddio, gydag Ymprydu, Hwy a'u gorchymmynaſant hwynt i'r Arglwydd Credaſant ynddo.* Nid anturiai 'r Apoſtolion gymmaint a chyn bwyſfawrocced Gwaith ag dd Urddo Gweinidogion Eglwyſig, heb ymdarparu atto 'n ddyladwy trwy Weddi ac Ymryd.

III. Trydydd Diben Crefyddol Ympryd, yw n amcaner ef megys Arwydd neu Dyſtiolth o Ymddarſtyngiad goſtyngedig i Ewyllys uw, â diragrith a lâr a Gofid am Bechodau, n ſo'm yn ei arfer megys Dial arnom ein nain am yr ynſydrwydd ar Oferedd yr ym rhŷ chwannog i ymhyfrydu ynddynt.

Dyma 'r amryw Ddibenion a wnant Ympyd yn Ddledſwydd Grefyddol, yn Waith da, ymmeradwy gan Dduw a buddiol i'n Hendiau 'n hunain.

Ond y ſawl a Ymprydiant yn Unig o ran efod ac Arfer neu o herwydd eu bod yn wennych gwneuthur fel Dynion Eraill, Math Griſtnogion medrus, diyſtyrus ydynt, ſy 'n wneuthur llawer o niweid iw Cyrph wrth eu yſtuddio 'n ddibwrpas heb wneuthur maint y byd o ddaioni iddynt eu hunain. Y ſawl 'n gobeithio cael Clod a Mawl gan y Byd wrth nddangos fel hyn yn ddurfing ac yn Gaethrefyddol, os ſfynna 'u bwriadau, *yn wir y mae nt*

yn

yn derbyn eu Gwobr yma, ond ar ol hyn
Cyfran gwedi ei bennodi ir Cyfryw Ad-ddyn
gwag-ogoneddgar Ymmhlith Rhagrithwyr
Anffyddloniaid.

Mae etto Ddibenion o Ymprydio llaw
gwaeth nar rhain, a llawer mwy anfodlongar
anghymmeradwy gan Dduw, megys yr hwn
oedd y Pharifæad yn ymgyrraedd am dan
fef, haeddu Ei gyfiawnhau o herwydd ei Y
pryd, ac felly troi heibio Drugaredd Dduw
ddiwrth weithredu dim yn ei gyfiawnhâd,
hon fydd raid iddi ddeilliaw yn hollawl odd
wrthoEf. Cymmaint arwydd oedd hyn o Falc
der a Rhyfyg a darfod i'r Publican nad oed
ganddo ddim Gweithredoedd da i ymffroft
o'u plegyd, ond ei daflu ei hun yn gwbl
Drugaredd Dduw, gael ei gyfiawnhau o'i fla
Ef. Mae ffordd Erchyll arall i ddigio 'r Hol
lluog Dduw, pan fydder yn gwyrdroi Dledfw
ddau Crefyddol i Ddibenion a Bwriadau dr
gionus; Mae 'n Jachawdr yn yr Efengyl yn
gyoeddi 'r yfgrifennyddion ar Pharifæaid
hir-weddio, megys gwell Efgus i *lwyr-fwyta*
Gwragedd Gweddwon: Matth. 23. 14. Ac yn
Prophwyd *Efay*, Pen. 58. 4. Yr ydym yn da
llen am rai a *Ymprydient i Ymryfon a chynnen*, a
dâro á Dwrn Anwiredd. Peth rhŷ Gyffredin y
ceifio amddeffyn achos drwg tan rithiau Cref
ddol, ac yn enwedig wrth Ymprydio, rhai
chwennychent Ymddangos fel pe baent yn ce
fio rhwymo Duw i daro yn eu plaid, fel y g
llo

ont wrth hynny dwyllo 'r byd i feddwlyn wel
u hamcanion a'u bwriadau.

Gwedi eglurhau Natur Ympryd fel hyn, a
ngos y rhagoriaeth ſydd rhwng yr amryw
thau o hono, pa ûn bynnag a'i da a'i drwg,
di-ddrwg-didda. Mi a af bellach ym mlaen
yr ail peth, ſef i ddangos pa rai yw 'r Am-
roedd a'r Tymmorau Cyfaddas i ymarfer ar
dledſwydd Greſyddol hon; Ac yma rhaid
i yſtyried Ympryd megys y mae 'n Ddled-
ydd Gyhoedd neu Ddirgel; mae pob ún o
nynt yn angenrheidiol pan fo achoſion cy-
ddas iddynt, ac mae ini Eſamplau o bob un
ddau fath yn yr Yſgrythyr lân.

I. Am Ymprydiau Cyhoeddus, y cyfryw ac
Orchymmynir trwy Awdwrdod Gyfreithlon
n ein Llywodraethwyr yn yr Eglwys neu 'r
ladwriaeth: megys y mae'nt Hwy yn Farn-
yr or achoſion felly y mae'nt hefyd yn farn-
yr ór amſerau Cyfaddas i'r cyfryw Ympryd-
u, a chan mae Tywyſogion ſydd ganddynt yr
wl oreu ar perthynas mwyaf yn Nedwyddwch
Llwyddiant eu Teyrnaſoedd, mae'nt yn rhwy-
edig i arfer y moddion Cymmwyſaf i he-
lychu a lliniaru Digoſaint Duw, pan fo 'n
oddi arwyddion eglur o'r anfodlondeb, trwy
lanfon Daiargrynfaau, Newyn, Rhyfel neu
à i gyſtuddio 'n Gwledydd.

A pha foddion cyn gyffelyped i gael Tru-
redd gan Dduw ag ydyw Ympryd ac Ym-
tyngiad Cyffredinol y Brenhin ar Bobl? Yr

ydym yn darllen fod Brenhinoedd da tan Ddeddf yn ei arfer ar y fath Achofion, yn e wedig *Jehoſaphat*, pan oedd Ei Elynion yn b rod i fyrthio arno, *Efe a ofnodd, ac a ymrodd i geiſio 'r Arglwydd, ac a gyhoeddodd Ympryd tr holl* Judah. 2 Chron. 20. 3.

Mae Deiliaid yn Rhwymedig i Ufuddh i'r Awdurdodau goruchel ym mhob pethau Cy reithlon, Llawer mwy ynteu yw y rhwym digaeth i Ufudd-dod, pan fo Dledfwyddau m grefyddol ag yw hon o Ymprydio, ac ar y cy ryw amſerau mor gymmwys ac angenrheidi yn Orchymmynedig ganddynt.

Am Ymprydiau Gofodedig yr Eglwys a O deiniwyd gan ein Llywiawdwyr Yſprydol i cadw 'n waſtadol ar ryw Amſeroedd a Thym morau pennodol, megys y Grawys, y Nof-wy iau, Wythnofau yr Cydgorau; mae Defod, A fer ac Awdurdod yr Eglwys yn gyflawn-dd gonol i rwymo Cydwybodau ei Ddeiliaid i Cadw.

Yn wir nid oes mor Eglurdeb ddarfod i Apoſtolion Sefydlu dim Dyddiau gofodedig Ympryd iw Cadw gan bawb yn gyffredin Ond f'a welodd y fawl a ddaethant ar eu h i Lywodraethu 'r Eglwys, achos Cyfion i a fer yr Awdurdod honno yn hyn o beth, er n oedd yr Apoſtolion yſgatfydd yn ei hamſ yn gweled mor gymmwys ei Harferu.

Ar hyn a wnaethant Hwy ar yr achos yn fydd Warantedig wrth arfer Eglwys yr J ddewo

dewon, yr hon (heblaw Dŷdd y Cymmod, Degfed dŷdd or ſeithfed Mis, yr unig Ymryd a Ordeiniodd *Moſes*, Lev. 23. 27.) oedd anddi amryw Ymprydiau Eraill gwedi eu horeinio gan Lywodraethwyr yr *EGLWYS*, fel Cyfrifir hwy gan y Prophwyd *Zechariah*: 19. Ympryd y Pedwerydd, y Pummed, y eithfed ar Degfed Mis, a chan nad oes mor wybodaeth fod yr un o'r rhain (ond Ympryd Seithfed Mis) wedi ei Ordeinio tan Ddeddf *Moſes*, Nid allwn feddwl amgenach na'u bod wedi eu pennodi gan eu Llywodraethwyr ar achoſiou enwedigol, yn hyttrach o ran Duwoldeb nag o ran un Gorchymmyn pennodol oddiwrth Dduw.

Mae gennym gan hynny arfer yr Eglwys uddewig i gyſiawnhau'n harfer ninnau o gadw n Hymprydiau goſodedig o ran Ufudd-dod n Huchafiaid Eglwyſig trwy 'r hon yr ordeinwyd hwynt; ond mae 'n rhaid cydnabod fod n peth yn perthyn iw Cyfreithiau hwynt, cyſtal g i Gyfreithiau 'r Deyrnas, ſef nad ydynt ou han eu hunain yn anghyſnewydiol, Ond y ellir eu dirymmu neu eu troi 'n ol, trwy Awurdod ogyfuwch ar hon a'u ſefydlodd hwynt r y Cyntaf.

Hyn yw Natur pob math ar Oſodedigaethu Dynol, lle wrth hynny, pe bai Awdurdod r Eglwys ſydd yr awrhon yn ſefydlog, yn weled yn gymmwys newid dim. naill ynglch Amſeroedd ein Ymprydiau, neu 'r modd-

ion iw cyflawni, Nid ydym mor rhwymedi
i gadw Defodau ac Ordinhadau y ſawl a fua
o'n blaen Ni. nad yw y rhwymedigaeth ddi
eddaf yma yn dirymmu y Gyntaf. ac a dd
lai fod yn Rheol ac yn fefur i'n Hufudd-do

Yr Amſeroedd i Ymprydio 'n gyhoedd fyd
wrth hynny iw trefnu a'u ſefydlu gan ein Llyw
odraethwyr, ondmae Achoſion Eraill i ymarſ
ar Ddledſwydd hon, y rhai megys y perthyn
ant i bob Dŷn yn ol y Cyflwr ar helynt y b
ynddo mae 'n rhaid i bob Dŷn farnu trofto
hûn pa amſer ſydd gyfaddaſaf i hynny.

F' a adawodd ein Jachawdr ini Ei Eſamp
ei hun am Ymprydio, Eſampl a ddylem ei dd
lyn. er nad allwn bŷth ddiſgwyl dyfod o hŷ
iddi. *neu ei gorddiwes.* Efe *a Ymprydiodd dde*
gain Niwrnod a deugain Nos yn yr Anialwe
Matth. 4. 1. Efe hefyd a ddangoſodd y mod
y dylem Ymprydio, ac a drefnodd Wobr a
hynny. *Eithr pan Ymprydiech di Enneinia dy ben*
golch dy Wyneb, fel nad ymddangoſech i Ddyn
dy fod yn Ymprydio, Ond i'th Dâd yr hwn ſydd
y dirgel, a'th Dad yr hwn a wel yn y dirgel, a d
ti yn yr amlwg, Matth. 6. 17, 18. F'a ddy
godd ini hefyd na thâl dim ini ymgadw odd
wrth luniaeth Corphorol oni bydd yn gyſſyll
iedig â Gofid ac ymddaroſtyngiad Yſpryd
Canys ni welwn panofynnodd Diſgyblion Je
iddo, pa ham nad oedd Ei Ddigſyblion Ef
Ymprydio? Mae 'n rhoddi atteb iddynt yn
eiriau y Teſtyn, *A all plant yr Yſtafell Briod*

ala

aru tra fo y Priodfab gyda bwynt? gan arwydd-
cau yn eglur mae Gwir Ympryd yw *Galaru.*
ae 'n arwyddoccau fod Dynion gwedi eu
ysbigo eyn drymmed *yn eu Calonnau,* trwy
imlad o'u Pechodau, ac wedi dychrynu cym-
aint o herwydd y Bygythion a gyhoeddodd
uw yn eu herbyn, nad oes ganddynt ond y-
ydig awydd i Fwyd na Diod na difyrrwch
nawdol, y rhai au hudasant, ac au dygasant
Cyflwr gresynol y mae'nt yn eu gweled eu
unain gwedi eu methlu ynddo, ac mae gwell
anddynt yn hyttrach tarweiddio a daroſtwng
Cnawd, trwy attal oddiwrtho ei gynnefin
mborth a'i gynhaliaeth, na'u gosod eu hunain,
rth *wneuthur rhagddarbod trosto,* mewn mwy
erygl o *gyflawni eu Chwantau Ef.*

Dyma Athrawiaeth ein Jachawdr Christ Yn-
hylch Natur a Dull Ympryd, ond ni orchym-
ynodd Ef yn Unlle ùn Amser pennodol i
ynny, ond Ei fod yn dywedyd i ni yn gy-
redinol, *y Dyddiau a ddaw pan ddyger y Priod-
ab oddiarnynt, ac yna yr Ymprydiant.* Gwedi
eidio o Grist ag Ymddangos yn weledig iw
glwys, f'a gai ei holl wir Ddisgyblion Ef ddi-
on o achos i wylo a galaru; yr Hiraeth trwm-
durfing a fyddai am dano, ar bawb oedd wir
aredig a ffyddlon iw Hiachawdr, a orchfygai
fynych eu chwant Naturiol i luniaeth, ac
bodlonai 'n hawdd iw Esgeuluso ai droi hei-
io.

Hwy

Hwy a Ymneilltuent yn fynych oddiwrth b
mwyniant dauarol er cael gwell Cyfleuſdra
feddwl a myfyrio am bethau Nefol; ac yn e
wedig am y Gobaith ſiccr diammheuaeth
weled Ef yr Hwn ſydd yr awrhon yn anwe
dig.

Mae (medd, *Solomon*, Preg. 3.) *Amſer i*
peth; *Amſer i wylo, ac Amſer i chwerthin*; *A*
ſer i alaru, ac Amſer i ddawnſio. Tra bu'n Jac
ſwdr ar y Ddaear, nid oedd Hi amſer cyfadd
ir Cyfryw Ymprydiau, Ond yr awrhon gwe
myned o hono Ymaith, mae Achoſion yn fy
ych i bob Chriſtion i ymroddi at y Ddle
ſwydd hon, ac f' all y rhai gwaelaf eu De
twriaeth wybod pa bryd bo'r Amſeroedd Cy
mwyſaf iddi.

Pan fyddo Duw 'n ein Cyſtuddio trwy fli
derau, trwy Glefyd, trwy Golled am Garedig
on, neu am ein Meddiannau, neu trwy wrth
gâs Yſprydol, pan fo'n tynnu ymaith Ei râs
Gyſſuriadau oddiwrth ein Heneidiau, yna rhy
wyr i'ni Ymddaroſtwng ac Ymegnio trwy bo
Moddion a fedrom i geiſio ail-ynnill Ei Gari
a'i Drugaredd Ef: Hyn oedd arfer *Daſydd*, Pſa
35. 13. *Oeddwn*, medd Efe, *am Gwiſg o ſachle*
goſlyngais fy Enaid ag Ympryd. Ar Prophwy
Daniel a fu 'n galaru dair wythnos gyflawn
mae 'n dywedyd ini *na fwyttaodd fara blaſus,*
na ddaeth Cig na Gwin yn ei Enau. Dan. 10. 3.

Am yr Amſer neu 'r yſpaid y dylau 'n hym
pryd barhau, gan fod cymmaint rhagor rhwn

naill Ddyn ar llall o ran nerth neu wendid ac
huſrwydd Eu Cyrph, rhaid yw edrych yn of-
s at hynny; Ond ordinhâd Gymmanſa-Cyn-
r *Calcedon* yw y Rheoloreu yn yr achos yma,
, y dylai Pob Dŷn yn ei Ympryd Dirgel a
yhoeddus, aros trwy 'r Dŷdd heb na Bwyd na
od, tan ar ol prydnhawnol Weddi; a phwy
nnag a fwyttai neu a yfai cyn diwedd y Bryd-
awnol Weddi, f'a edrychid arno megys un
d oedd yn yſtyr Sanctteiddrwydd ei Ympryd.
Gwedi imi fel hyn ddangos Natur Ympryd
amryw fathau o hono, a pha rai yw 'r Am-
roedd ar achoſion Gymmwyſaf i ymarfer ar
dledſwydd hon; mi a af rhagof at y trydydd
th a addewais, ſef, i ddangos mor ffynnadwy
lyw gyda Duw, a pha Ddoniau llesfawr a
arddaſant oddiwrthi.

Daionus yw Gweddi gydag Ympryd, meddai 'r
ngel *Raphael* wrth *Tobias*, Tob. 12. 8. Ac mae
nryw Eſamplau iw gweled yn yr yſgrythyr
nyn dangos yn eglur faint daioni a gafodd Dy-
on oddiwrthi. Gwedi i *Ahab*, ar annogaeth
zebel, ladd *Naboth*, a Meddiannu ei winllan
f, yn wrthynebol i bob Cyfiawnder ac One-
rwydd, Duw trwy 'r Prophwyd *Elias*, a fy-
thiodd farnedigaethau or Creulonaf yn ei er-
yn Ef. 1 Bren. 21. 19, 21, 24. *Yn y fan lle llyfodd y Cŵn waed* Naboth, *y Llŷf Cŵn dy waed* *heu hefyd.* Ac *wele fi yn dwyn drwg arnati, a i a dynnaf ymmaith dy Hiliogaeth di: Y Cŵn a yttŷ yr hwn a fyddo marw or Eiddo* Ahab *yn y*

Ddinas,

Ddinas, ar hwn a fyddo marw yn y Maes a fwy
Adar y neſoedd. Ond t'a liniarwyd peth we
hynny ar Doſter y farnedigaeth hon. Aha
rwygodd Ei ddillad, ac a oſododd 'ſachliain am
gnawd, ac a Ymprydiodd, ac a gerddodd yn ar
v. 27. Ac ar hynny, *daeth Gair yr Arglwydd*
Elias, *a weli di fel yr Ymoſtwng* Ahab *gêr fy Mr*
i? Am iddo Ymoſtwng ger fy Mron i; Ni ddyg
y drwg yn ei ddyddiau Ef, ond yn Nyddiau Ei F
y dygaf y drwg ar Ei Dŷ Ef. v. 28. 29.

Fel hyn hefyd y ffynnodd Ympryd Pobl N
neſeh; Duw a ddanfonodd y Prophwyd *Jonah*
gyhoeddi Y farn farwol hon yn eu herbyn: *deug*
niwrnod a fydd Etto, a Nineſeh *a gwympir, a Gw*
Nineſeh *a gredaſant i Dduw, ac a gyhoeddaſa*
Ympryd, ac a wiſcaſânt 'Sachliain, or mwyaf hyd
lleiaf o honynt: A gwelodd Duw eu Gweithredoe
hwynt, droi o honynt o'u ffyrdd drygionus, ac E
farhaodd Duw am y drwg a ddywedaſei y gwnai E
iddynt, ac nis gwnaeth, Jonah. 3. 4, 5, 10.

Yr oedd Diſgyblion Chriſt yn y Teſtamen
Newydd mor deimladwy o rym ac Effaithio
aeth Ympryd, na chymmerent ddim o bw
mewn llaw hebddo; yr Apoſtolion pan fyd
ent ar fedr Urddo Eglwyſwyr a ymddarpare
ir ſwydd bwyſfawr honno *trwy Weddi ac Ympry*

Ac megys y teilyngodd yr Yſpryd Glan Iw
ddiannu 'r Gyfryw Foddion yn ol Ewyllys
Deiſyfiad y ſawl a Ymprydient, felly nid oed
gan yr Apoſtolion ddim Awdurdod i fw.w
Yſpryd drwg allan ond trwy 'r Cyfryw Y
barottoa

arottoad ; *Yrhyw hwn*, medd ein Jachawdr, *ni ll er dim ddyfod allan, ond trwy Weddi ac Ymprydd.* Ac megys y Caſwyd bendithion a thrugareddau Mawrion gan yr Hollalluog Dduw yn y wyd hwn wrth ddledus Ymarfer âg Ymprydd, lly y mae'n ddigon o gyſſur i Ninnau i fynch wneuthur yr ûn Ddledſwydd, fod ein Jehawdr Jeſu Griſt yn addaw ir ſawl a Ymprydnt fel y dylent, y bydd *iw Dâd yr hwn ſydd yn weled yn y dirgel, dalu iddynt yn yr amlwg.* Matth. 18.

Gan fod wrth hynny yn yr Oes yr ydym yn yw ynddi gynnifer a Chymmaint o achoſion Ymprydio a galaru ag â fu mewn ûn oes or aen ; Gan fod ein Pechodau gwedi tyfu i fyn hyd yr Eithaf, a Digoſaint euſys gwedi yned allan oddiwrth yr Arglwydd am dant, ac Ynteu 'n tywallt ei Ddialedd arnom wy amryw Drallodau blinion ; gadewch i ni lilyn Eſamplau Duwiol Gwyr ſanctaidd yn Yſgrythyr lân, ac Ymddaroſtwng ger bron rſeddfainc y rhâd, gan alaru 'n gyſtuddiedig herwydd ein hamryw Droſeddiadau, a thaerbil â Duw am Drugaredd a Maddeuant.

Cadwn y Cyfryw yw Ymprydiau ag â ddeſodd Ete, amſeroedd iw treulio mewn gwir l a chyſtudd Calon, gan ommedd i ni 'n hun ein Cynhaliaeth Cynnefin, fel y gallom weiddio a daroſtwng y Cnawd gydâ 'i wynia i Chwantau, ac am a arbedom o'n traul arm ein hunain ei gyfrannu o honom i ddi-

wallu argenrheidiau 'r Tlodion, fel y bo g
nym beth i borthi 'r Newynog, i ddillad
Noethion, ac i roddi Cymmorth ac Ymwa
ir Gorthrymmedig, *yna os galwn, yr Arglwyd*
ettyb, os gwaeddwn, Efe a ddywed wele fi.
fydd gyda ni i'n bendithio, *ac i'n Cadw rhag*
drwg.

Traetha

TRAETHAWD. III.

Am roddi Eluſen.

HEB. 13. 16.

d Gwneuthur Daioni a chyfrannu nac anghofi-wch; Canys â chyfryw Ebyrth y rhyngir bôdd Duw.

AHOLL Ddledſwyddau 'n 'Sanctaidd Gretydd, nid oes yr ûn yn peri mwy anrhydedd i Dduw, a mwy llês i'n Cymmydogion nâr Gair rhagorol ynia o Gariad, ſy 'n ſefyll mewn *rhoddi Eluſen*, neu ddiwallu angenrheidiau 'n odyr yr arwydd ſiccraf a fedrwn ei ddangos wir a bywiol Ffŷdd, ydyw Oblegyd anhawdd Cynhyrfir Neb i gyfrannu eu dâ bydol ir Tlon, oni chredant yn ddiyſcog fod amgenach yſſorau 'n ddarparedig iddynt yn y Nefoedd. A hyn ond antur, yw 'r achos o herwydd pa m y mae cynnifer or rhai ſydd yn addef y efydd Griſt'nogol, Er hynny mor wrthnyſ- ac anhydyn ir Ddledſwydd angenrheidiol n. Nid oes mo'u Ffŷdd yn ddigon Crêf di. Prawf ydyw na ddeil allan, mae'nt yn

Ewyllyſgar i gydnabod Chriſt, ac i groeſawu
dilyn Gwirioneddau 'r Efengyl, cymmhelled
y cyttunont a'u budd Amſerol; ond rhoddi
llan y peth ſydd ganddynt, Cyfrannu i Erail
peth y dylent Hwy eu hunain a'u Teuluoe
ſyw arno, ſydd mor hwylus o ffordd i Dlo
a'u bod yn meddwl nad allant mewn rheſw
a ſynhwyr mor ymroi iddi.

A phan ſo Meddyliau Dynion Cyn llawne
hyn o ofn ac arſwyd rhag ſyrthio i Eiſieu,
yw eu Cynghori 'fod yn cluſengar ddim a
gen na phe parech iddynt eu diſetha 'u huna
ac felly, gan ſod yn rhaid yma ddadleu yn
byn Prif-reſwm Cadarnaf Natur, ſef, yr Ew
llys ſydd gan bob Dŷn iw gadw a'i amddeff
ei hun, nid rhyfedd ſod y rheſymmau goreu
Annogaethau taeraf a dwyſaf a fedrom eu h
feru, yn myned Cyn ſynyched yn anffynnadw

Am hynny ynteu i droi heibio bob Cyfry
ofn a rhagfarn anrheſymmol, ac i ddangos
Ddynion y rhwymedigaethau ſydd arnynt i g
ſlawni 'r Ddledſwydd garedigol hon, ac iw c
nogi a'u cyſſuro i Ymarfer a hi, mi a ddang
ſaf y tri pheth hyn.

I. *Fod y fâth yma o Gariad ſy 'n ſeſyll ma
rhoddi Eluſen, yn Ddledſwydd y mae 'r Hollalu
Ddaw yn ei goſyn yn bendant gennym, ai chyſla
yn beth gwir-gymmeradwy ganddo.*

II. *Dledſwydd ydyw, y mae 'r Arfer o honi, m
amryw ffyrdd yn ſuddiol i ni 'n hunain.*

III. *N*

III. *Nad oes dim perygl o ſyrthio i Dlodi wrth lledus Ymarfer â hi, o herwydd roddi o Dduw i yn yr Yſgrythyr lán, aml ſiecrwydd i'r gwrthwyb.*

I. Mae 'r fáth yma o Gariad a elwir yn y ſtyn, *Gwneuthur Daioni a chyfrannu*, gwedi ei rchymmyn yn bendant gan yr Hollalluog duw megys Dledſwydd. Mae hyn yn ddigon lur tan Ddedf *Moſes*, lle mae Duw 'n gofalu enwedig am y Tlodion, nid yn unig iw hamleſſyn a'u diogelu rhag trais a gorthrymder, d heſyd i ddarparu cynhaliaeth iddynt: Mae dywedyd iw Bobl na byddai fyth arnynt Eiu Tlodion iw diwallu ac i ddadcan Eu cad iddynt. *Ni ddeſfydd y Tlawd* (medd Efe) *anol y tir, am hynny yr ydwyfi yn gorchymmyn i ti, n ddywedyd, gan agoryd agor dy law ith frawd, h anghenus, ac i'th Dlawd yn dy Dir.* Deut. 15. .

Ac yn y Prophwydi, mae Duw 'n Cyfrif y dledſwydd yma mor bwys-ſawr; ai fod yn dcan nad oedd eu Hympryd, Eu haberthau, holl Ddefodau deddfol ond ofer ac anffyndwy hebddi. *Eſay* 1. 17. Ac megys pe bui 'n ſefyll yn lle pob màth ar Ddledſwydd-Eraill, Hi a elwir yn fynych yn yr Hèn ſtament yn *Gyfiawnder. Gwaſgarodd, rhoddodd Tlodion ai Gyfiawnder ſydd yn parhau byth.* al. 112. 9.

Ac yn y Teſtament Newydd yr oedd Chriſtogion mor deimladwy or Rhwymedigaethau

oedd

oedd arnynt i'r Ddledſwydd hon, a'n bod y
darllen yn yr *Actau, fod pob peth ganddynt yn g*
ffredin; *a gwerthu o honynt eu Meddiannau a d*
au rhannu i bawb fel yr oedd yr Eiſieu ar nêb; Act
Neu yn hyttrach ni chymmerent arnynt m
cyfrannu eu Heluſenau eu hunain, eithr Y
ddiried ir Apoſtolion am danynt, a gadael id
ynt eu trin au harferu fel y fynnent; Can
felly y dwedir ini gwedi hynny, Act, 4. 34
Hwy a ddygaſant Werth y pethau a wertbaſid, a
ai goſodaſant wrth Draed yr Apoſtolion, a rhanw
i bob ûn megys yr oedd yr angen arno.

Y Ddefod yma a barhaodd yn yr Eglwy
yn amſer yr Apoſtolion; Ni a welwn St. Pa
yn rhoddi Rheolau a hyfforddiadau yn ei chylch
Cor. 16. 2. Aç mewn amryw fannau, mae'
ddifritol yn annog y Bobl i ddwyn i mew
Eu Heluſenau yn rhwydd-lân ac yn haelion
yn ôl eu gallu. Mae'n peri i *Timotheus Orchym*
myn ir rhai ſydd Oludog yn y Byd yma, ar iddyn
wneuthur Dajoni, Ymgyfocthogi mewn Gweithredoed
dâ, fod yn hawdd ganddynt roddi a chyfrannu.

Mae'r Drydydd bennod ar ddèg or Epiſt
yma at yr *Hebræaid* yn llawn o'r fath annog
aethau Caredigol. *Parhaed Brawdgarwch* Heb
3. 1. ac yn y Teſtyn, *Gwneuthur Dajoni a chyf*
rannu nac anghofiwch, Canys â chyfryw Ebyrth
bodlonir Duw.

Afraid yw pentyrru llawer o Reſymmau o
Yſgrythyr, i ddangos fod Duw yn difritol o
fyn y Ddledſwydd hon gennym. Mae Natu

hûn ŷn Gorchymmyn acyn dyſgu'r ûn peth
ſi, a rhaid i Ddŷn Wadu ei Reſwm, a chaledu
Gydwybod, cyn y gallo 'n hollawl gau Ym-
yſgaroedd Ei Doſturi, *ac ymguddio oddiwrth ei*
nawd Ei hûn, Eſay. 58. 7.

Od oes ûn Ddledſwydd a haddai 'r blaenor-
eth ar y llaill, f'a ddylai hon ei gael yn anad
n arall, o herwydd Ei bod yn fwyaf Cymmer-
dwy gan yr Hollalluog Dduw or cwbl oll; ac
n wir yr unig Rinwedd ydyw trwy 'r hon y
ellir dywedyd mewn ûn Yſtyr fod Ein Da-
m yn cyrraedd atto Ef. Nid o herwydd y
all ûn Dŷn yn wir wneuthur lleſhâd i Dduw
hûn: Ond gan drefnu o hono Ef y Tlodion
Anghenus i fod megys yn Oruchwylwyr
no, i dderbyn ein Eluſenau a'n Caredigol E-
yllys dà, ac yn cyfrif yr hyn a wnelom idd-
nt hwy megys pe 'i gwnelid iddo 'i hûn; f'
ellir dywedyd am y Gŵr Trugarog Ei fod
rth roddi Eluſen yn gwneuthur Dajoni ir hwn
n gwnaeth *yn gymmaint* (medd ein Jachawdr)
i wneuthur o honoch i ûn o'r rhai hyn ſy Mrodyr
iaf, i mi y gwnaethoch. Matth. 25. 40. Fel pe
ywedaſei. wrth borthi 'r Newynog, a chroe-
wu Dieithriaid, chwi am diddanaſoch i wrth
illadu 'r Noethion, ac ymweled ar Clwyfus
Carcharorion, Myfi a gefais ſy Niwallu
n Cyſſuro gennych.

Tebyg yw 'r Achos yma i Gyflwr Cennadon
enhinoedd, y Parch ar Cymwynaſau a wnel-
iddynt Hwy, ſydd bob amſer yn cael ed-

rych

edrych arnynt megys pe'i gwnelid ir Tywyſ
a'u danfonodd; ac am hynny am dderbyn
Angylion, Cennadon Duw iw Dŷ, au hamddeſſ
rhag rhuthrau y Dorf afreolus, y Cadwodd D
Lot ai Deulu rhag y Dinyſtr Ofnadwy a d
walltodd Efe ar *Sodom* a *Gomorah.*

Mae Duw gwedi goſod y Tlodion yn ei
ei hun, fel na byddo arnom mo'r Eiſieu cy
leuſdra i ddadcan ein Caredigrwydd idd
y neb ni wnelo dda i'r rhai'n ni's gwnaet
ent mo'no i Dduw ei hûn; yn gymmaint (me
ein Jachawdr) *ac nas gwnaethoch ir un or r
lleiaſ hyn, nis gwnaethoch i minneu* Matth. 25.

Ac er ein bod yn rhwymedig i Ddajon
Ragluniaeth Duw am gymmaint ag a feddo
ac nad yw 'r Aberthau ar Anrhegion
wnelom iddo; Ond eyſion Ddled arnom, e
os Offrymmwn hwynt yn y ſfordd yma a o
deiniodd Ef. yn Eluſen i'n Brodyr cyſtuddi
dig, mae Duw yn ei wneuthur Ei hun yn Ddle
wr, mae'n cymmeryd yr holl gyfrif pa ûn by
nag a'i mawr ai bychan, arno 'i hûn, ac m
gys y *Samaritan* dà a ddiwallodd yr Ymdeith
ydd truan a ſyrthiaſei ymmyſg Lladron, m
'n ymrwymo ar Ei Air i dalu pan ddel dr
chefn, pa draul angenrheidiol bynnag a wn
om yn rhaid y ſawl ſydd yn wir mewn ang
ac Eiſieu, ac yn gymmwys ei dderbyn ein
luſenau. *Yr neb a gymmero Drugaredd ar y Tla
(medd Solomon) ſydd yn rhoddi Echwyn i'r
lwydd, ai rodd a dâl Efe iddo drachefn.* Dih. 19.

Pa ſicerwydd well a all ûn Dŷn ei ofyn am Dryſſorau, a pha le y gall ddiſgwyl iddynt d yn ſwy ſſynnadwy, nag wrth ei rhoddi Nwylo Duw, yr hwn a addawodd gymaint cynnyrch ir ſawl a feiddiant ymddiried do am danynt.

Gobaith ſiccr o Elw a wna i Bobl roddi heiddo allan o'u dwylo, er anwyled a fyddo nddynt; Dyma ynteu yr ail peth a gryyllwyd er mwyn ein cefnogi i fod yn Drurogion ac yn Eluſengar, ſef dangos y Donllestawr a ellir eu diſgwyl oddiwrth nny.

Mawr ac aml yw 'r Llès Yſprydol ſy 'n tarau oddiwrth hyn.

I. Ein tâl am ein Cariad a'n Heluſengarwch 'n bod yn cael Deiſyfiadau dà, a Gweddiau Bendithion y Tlodion; ac nid Cymwynas el ydyw hon; Canys er y gall'y Tlodion edch yn waelion ac yn ddiyſtyrus yngolwg y d, mae'nt yn anwyl gan Dduw yr hwn au naeth, Mae Efe yn eu Caru ac yn toſturio thynt, ac yn cymmeryd gofal arbennig am nynt. y rhai nid allant wneuthur dim troſt eu hunain, y rhai nid oes ganddynt nac guboriau na Thryſſordai, etto mae Efe yn porthi ac yn eu cadw, megys trwy anghyedin Weithrediadau Rhagluniaeth.

Pan oedd ein Jachawdr yn byw ar y Ddaufa ddewiſodd Ei oſod ei hûn yn eu Cyflwr ynt, mae 'n eu galw wrth henwau tyner-

garedig, *Ei rai bychain, a'i Frodyr* a St. J
yn dywedyd am danynt *Dewiſodd Duw D*
ion y Byd hwn, yn Gyfoethogion mewn Ffydd,
yn Etifeddion y Deyrnas, Yr hona addawodd
ir rhai ſydd yn ei garu Ef. Jaco. 2. 5. Am hy
ny ynteu megys na ddichon y Tlodion
hunain roddi math yn y Byd ar Daledigae
am y Cymmwynaſau a wneler iddynt, D
yr hwn ſydd yn ei addef ei hun yn gare
ac yn Amddiffynnydd iddynt, a fydd ficc
wneuthur hynny troſtynt ar ei Dymuniad hwy
Dedwydd y geilw 'n Jachawdr y ſawl nid
gan y Tlodion i dalu iddynt, O herwydd
hynny, medd Efe, *f'a delir iddynt yn Adgyf*
iad y rhai Cyfiawn. Luc. 14. 14.

A Mab *Syraeh* a ddywed i ni, *Os yr Angh*
d'th Felldithia yn chwerwder ei Enaid, Ei Wd
(er ei bod yn Rhegſa) *a wrandewir gan yr*
a'i gwnaeth Ef. Ecclus. 4. 6. Ond mae Duw
Natur ei hûn yn ſwy tueddol i wneuthur da
ni nac i dalu dial? am hynny ynteu os gwr
dŷ Ef ar Achwynion y Tlodion er Colpe
aeth a Dialedd ar eu Gelynion a'u Gorthry
wyr, F'a fydd parottach o lawer i Wrando
Gweddiau a'u Herfyniadau am Fendithion
Gwobrwyon iw Caredigion.

Dâynteu fyddai ir Chriſtion yn yr Achos y
ddynwared Doethineb Plant y Byd hwn, y r
pan ſo'nt yn canlyn ar ryw ſwriad uchelga
ac 'n chwennych cael rhyw Haelioni gan
Fywyſog, ſy 'n ceiſio ymmhob modd ynn

Cari

ariad ac Ewyllys dâ y ſawl ſydd hoffat gan-
do Ef.

II. Mae mawrllès arall yn tarddu oddiwrth
luſengarwch, ſef ei fod yn pureiddio 'r Enaid.
hoddwch Eluſen o'r pethau ſydd gennych, medd ein
chawdr, *ac wele pob peth ſydd lân i chwi.* Luc. 11.
1. Am Drugaredd a ddangoſom ni i'n Brodyr,
uw a'i dengys ei hûn yn drugarog i ninnau,
ni bydd rhŷ graff i ddal ſulw ar ein Cam-
eddau beunyddiol. Mae llawer o Bechodau yr
lym yn ſyrthio iddynt yn fyrrbwyll neu 'n
liarwybod, llawer yn myned heibio heb ini ddal
lw arnynt, neu 'n llithro allan o'n Coffadwriaeth,
eb na'u Cyfaddef nac Edifarhau yn bendant o'u
egyd, Ar peth goreu a fedrwn ni ei wneuthur
gael Cymmod am y rhain yw arfer Eluſengar-
ch, mawr Nerth yr hon a fynegir gan fab *Sir-
h. megys y diffydd Dwſr Dân yn ffflammio, felly
wy Eluſen y ceir maddeuant am Bechod.* Ecclus.
30. [ac medd *Daniel* wrth *Nabuchodonoſor*,
rr ymaith dy *Bechodau trwy Gyfiawnder, a'th
wireddau trwy drugarhau wrth Drueiniaid*, Dan.
27. ac medd ein Jachawdr, *Gwyn eu Bŷd y Tru-
rogion, Canys hwya gant Drugaredd*, Matth. 5.
] Ac yr ŷm yn Darllen yn Llyfr *Tobit. Eluſen
ared rhag Angeu, ac a leſtair ddyſod ir tyw-
wch.* Tob. 4. 10. Ac yn yr Yſtyr yma 'r yd-
yn Gyffredinol yn deall Geiriau St. *Petr, O flaen
b peth bydded gennyeh Gariad helaeth tu âg at eu gi-
dd, Canys Cariad a guddia liaws o Bechodau.* 1 Pet.
8.

Y cyfryw fannau nid ydynt yn arwydde
cau fod mewn dim o'n Gweithredoedd ni
rhan eu hunain na grym na Rhinwedd i ol
ymaith Bechodau a gwneuthur bodlondeb
danynt, neu i waredu y Pechadur oddiwrth
Cyfryw Gofpedigaethau ag fy 'n perthyn i Wi
ionedd a Chyfiawnder Duw eu gofod arno. P
fai hynny 'n bod i ba berwyl y cymmero
Mab Duw ein Natur ni arno, ac y tywallto
Ei Waed ar y Groes trofom? Ond mae
ddiammeu fod cymmaint rhwng ein Gweit
redoedd da ni â haeddu dim ar law Ddu
neu ynnill ini gyfiawnhâdger ei fron Ef, â b
yn rhaid ini 'n gyntaf gael ein Cyfiawnhau c
y gallom eu gwneuthur. Megys y mae ffrw
thau dâ yn arwyddoccau fod y Pren yn d
ac nid ellir dywedyd Eu bod yn ei wneuth
felly, yr unffunyd hyd oni 'n himpier Ninn
trwy Ffŷdd ynGhorph Chrift, nid allwn
meddwl na gwneuthur dim a ryngo fodd Du
ar holl Weithredoedd da a wnelom gwedi hy
ny ydynt gymmeradwy ganddo Ef yn n
trwy haeddedigaethau Chrift Jefu.

Wrth hynny nid yw meddwl y mannau hy
ny or Yfgrythyr fy 'n crybwyll fod rhyw Ri
wedd neu Nerth yn ein Gweithredoedd dâ
ddim ychwaneg na hyn, fef fod y cyfry
Effeithiau lesfawr yn eu canlyn neu 'n perth
yn iddynt cyn ficcred â phe bae'nt yn wir
tarddu oddiwrthynt, nid oes mewn Gweith
redoedd o Gariad ddim nerth o honynt eu h

in i buro Pechodau, neu i'n rhŷddhau oddi-
rth y Coſpedigaethau dledus am danynt. Ond
n fod Pechodau 'r Gŵr Caredig Eluſengar
edi eu dileu, a'i Faddeuant wedi wneuthur
n ſicr iddo, dywedir mae ffrwythaç Effeith-
laeth Cariad yw hyn, ond nid yw felly mewn
modd amgen na thrwy Ras Duw megys y
ae 'n Wobr iddo.

Er na ddichon on'd Duw ei hun gyfiawnhau
echaduriaid, na dim ond Ufudd-dod a Mar-
olaeth Chriſt haeddu 'r Gymmwynas annrhae-
ol honno ganddo Ef, Etto mae y Rheſwm
n gadarned i gynhyrfu ac i gefnogi Dynion i
d yn ffrwythlon mewn Gweithredoedd dà, fel
gallont fod yn ſicr o'r Gwobrwyon a adda-
yd i'r ſawl a'u harferent, a phe bae'nt yn ddle-
s iw haeddedigaeth, neu gwedi eu gwneuthur
wy eu Nerth au grym Naturiol eu hunain.

Ac mae Duw yn dal y fàth ſulw arbennig
bob Gweithred a wnelom o'r fàth yma, à
d ein Jachawdr yn dywedyd i ni am Bwy byn-
g a roddai i ûn o'i Ddiſgyblion Ef gymmaint
Phioleid o Ddwfr oer, yn Enw Diſgybl, na chollai
e Ei Wobr, Matth. 10. 42.

Hwn, a llawer ychwaneg or fath Addewidi-
n graſuſol, a wnaeth Duw ir ſawl a arferant
Ddledſwydd hon, a wnae'nt yn ddiammeu i
y o bobl ei hoffi, oni bai eu bod yn ammeu
hagluniaeth Duw, a Pha Obaith bynnag ſydd
nddynt am gael eu gwobrwyo am eu Cariad
heluſengarwch yn y byd a ddaw, mae'nt

yn

yn Ofni eu tlodi au difetha o'u herwydd y
byd Yma.

I ddangos mor ddiſylfaen ac anrheſymm
yw'r Cyfryw ofnau, Mi a âf rhagof at y try
ydd peth a grybwyllais, ſef, *nad oes dim per*
o ſyrthio i Dlodi wrth Ymarfer ar Ddledſwy
hon, o herwydd rhoddi *o Dduw i ni yn yr Yſg*
thyr lân aml ſiccrwydd ir gwrthwyneb, er mw
annog a chefnogi Pobl a rhoddi Calon ynddy
i Ymarfer or Ddledſwydd fawr hon o Gariad
Eluſengarwch.

Yn ddi-ddadl mae'r Ddledſwydd ei hun y
Cyttuno Cyſtal a'n Naturiaeth Ni, ac yn p
'r fath hyfrydwch a bodlondeb i ni Nad all, o
troi o honom heibio 'r Cyfryw Ofnau, fod
rhwyſtr iw ddadleu mewn gweddeidd-dra yn
herbyn.

Mae llawer yn wir a Achoſion dirgel Er
yn attal Dynion rhag bod yn Eluſengar, y
garedig ac yn gymmwynaſgar ; mae rhai y
Ymroddi 'n awyddus i 'chwanegu Eu Meddia
nâu, Eraill yn Chwennych eu mwynhau eu hu
ain mewn difyrrwch ac oferedd ; Ond y Cy
ryw reſymmau gwrthyn ydyw y rhai 'n m
oes on'd Ychydig wŷr a'u Cydnebydd ; Ond
perygl o ſyrthio i Dlodi, ac i ddŷn ei Ddiſ
tha 'i hun ar ſawl ſy 'n Ymddiried wrtho, ſ
'n Codi 'r fath ddychrynedigaethau ofnadw
ynom, ân bod yn ei weled yn drô ſynhwyr
angenrheidiol geiſio Ymgadw rhagddo.

Yr ydym yn gweled ein Heiddo 'n myned
i-lai wrth ei rannu, ac nid yw ond peth Na-
riol i Ddŷn feddwl, os perŷ i roddi yn wa-
ad y derfydd or diwedd am y Cwbl, ac yr â
eb ddim ganddo; Ond nid yw hyn ond bw-
y Cyfrif yn ol dûll Dynion, ac nid fel Christ-
ogion; Canys os Cymmerwn Addewidion
uw yn rhan o'n Cyfrifon, os meiddiwn Ym-
diried iw Air Ef, yr Hwn fydd yn rhoddi
erth i beri Cyfoeth, a hefyd yn diogelu yr
yn a Ynnillasom, i ni ac i'n Teuluoedd, nid oes
i bob Cyfryw Ymresymmiadau Na ddiflan-
nt, ac na ddarfyddo am bob Ofn ac ammheu-
a sylfaenir arnynt: Mae *Dafydd* yn dywed-
i ni, Er yr amser y daeth Ef i oedran a
nhwyr i ddal sulw ar helynt y Bŷd, *jevien-
id hyd Ei henaint, na welodd Efe y Cyfiawn we-
ei adu, nai hâd yn Cardotta bara.* Ac mae'n
glur ei fod wrth Gyfiawn yn arwyddoccau
lusengar, fel y gallwn weled yn y geiriau sy
Calyn, *Pob amser y mae Efe y 'n drugarog ac
rhoddi benthyg, a'i Hâd a fendithir.* Pſal. 37.
. 26.

Ni a allwn hefyd roddi ar farn pob Dŷn a
laliodd sulw ar helynt y Bŷd, onid yw hyn
ddigon gwir, Canys Ymmhlith yr amryw
rdd sydd gan Dynion i dreulio 'u Meddian-
u, ac i ddwyn eu Teuluoedd i Dlodi, trwy
nghymmedroldeb, trwy Anlladrwydd, trwy
diofalwch neu Gymmeriaethau ynsyd, prin y
ybuwyd erioed Sôn am Ddŷn a ddifethodd

ei

ei holl Eiddo yn Unig o herwydd Gweithre
oedd Eluſengar; ac etto peth rhyfedd ja
allu o berygl Tlodi ddychrynu Pobl rhag gwne
thur eu Dledſwydd, pan nad oes ynddo m
grym iw hattal oddiwrth eu hyntydrwydd
trachwantau.

Mae Dynion yn arferol o fod yn ddigon bo
lon iw Cyflwr, ac yn eu tybied eu hunain
ddigon diogel oddiwrth Brinder ac Eiſieu,
bydd rhyw Gâr neu Gyfaill Cyfoethog gwe
rhoddi ſiccrwydd iddynt am ddiwallu eu ha
genrheidiau, a'u cynnal i fynu bob amſer. M
'r Gŵr Eluſengar wedi Cael y fath ſiccrwy
gan Dduw ei hun, (Dihar. 28. 27. *Y neb*
roddo ir Tlawd ni bydd angen arno) ie, os byd
wn ar ffordd ein Dledſwydd, os byddwn
Ceiſio Teyrnas Dduw a'i Gyfiawnder Ef, mae'n
chawdr yn ſiccrhau i ni, y darperir i ni bob
bydol yn ychwaneg (ſef, pob peth a welo Du
'n gymmwys ac yn angenrheidiol i ni, Matt
6. 33. Ac mae'r Brenhinol Pſalmydd yn a
nog Dynion i ofni Duw, ar addewid Cyflu
Yma, ſef, *Na bydd eiſieu ar y rhai a'i hofnant E*
y mae Eiſieu a Newyn, medd Efe, *ar y Llew*
jevaine ond y ſawl a geiſiant yn Arglwydd, ni by
arnynt Eiſieu dim daioni. Pſal. 34. 9. 10.
yn enwedig am y Ddledſwydd garedigol Yn
mae'n dywedyd, *Gobeithia yn yr Arglwydd a gw*
ddâ, felly y trigi yn y tir, a thi a berthir yn ddia
Pſal. 37. 3.

M

Mae i ni ûn Eſampl yn yr Yſgrythyr, lle
arfu i Dduw, er mwyn ſicrhau 'n ffydd yn
Addewidion hyn, wneuthur rhyfeddod iw
yflawni. Nid oedd gan y wraig weddw o
repta ond *Llonaid Llaw o flawd mewn Celwrn, ac*
hydig olew mewn yſtên, tuag at ei chynhaliaeth
genrheidiol ei hun a'i Phlentyn, a hyn yn
nſer Newyn, y pryd nad oedd dim ychwaneg
luniaeth iw gael.

Ac er hynny hi arbedodd or ychydig hwn-
w gymmaint ag a wnaeth Deiſen i *Elias* y
rophwyd i'w gadw rhag Newynu, gan hyde-
ar ei Addewid Ef, *na threulid y blawd yn y*
lwrn, ac na ddarfyddai yr olew or yſtên, hyd y
ydd y rhoddai 'r Arglwydd wlaw ar wyneb y Dda-
r, 1 Bren. 17. A hyn a ddaeth i ben yn ol
ir y Prophwyd, ni threuliwyd ac ni phallodd
ûn or ddau, eithr Hi a fwyttaodd, ac yn-
f a'i thylwyth tros yſpaid blwyddyn, v. 15.
6.

Pa fodd y mae 'r Eſampl yma yn gwradwy-
o Greſynol annrhugarogrwydd llawer o Grift-
gion, na hepcorant ddim o'u gormodedd iw
odyr Tlodion, na roddo iddynt gymmaint ar
iwſion Gweddill á fo'n ſyrthio oddiar Eu
rddau, lle 'r oedd y weddw yma 'n fodlon i
ryglu ei heinioes ei hun a'i phlentyn i achub
wyd Gŵr dieithr.

Gwir ydyw ddarfod ei chyſſuro ai cheſtyngi
ir weithred anarferedig yma o Garedig-
ydd, trwy addewid eglur oddiwrth Dduw, y

tâlai Efe yn helaeth iddi am hynny ; a hy
chwennychwn inneu ei gynghori ; ſef, Caly
Ddynion ei heſampl hi, a hyderu ar addew
on Duw fel y gwnaeth hithau, ac na oddef
mo'u dychrynu rhag gwneuthur Eluſen o
gwag berygl o gael eu tlodi neu eu difetha
herwydd. Nac amheued y ſawl ſy'n *gwaſt*
ac yn rhoddi ir Tlodion, na ddâw Duw *yr Hwn ſ*
yn rhoddi Had ir Hauwr, i roddi befyd fara yn
borth, ac i amlhau eu hâd, ac i chwanegu ffrwyth
Cyfiawnder, 2 Cor. 9. 10.

Mae ganddo amryw foddion i wneuthur
yn ffordd gyffredin Ei Ragluniaeth, ac nid rh
iddo wneuthur Rhyfeddodau i gywiro Ei Ad
widion ir Elufengar ; F'a orchymmyn Ei F
dithion arnynt yn eu tryſordai, ac ymmh
peth y rhoddont eu llaw arno, mae'nt yn
ffredinol yn ddoeth o Galon yn gyſtal ag
haelionus o Yſpryd, yn bwyllog ac yn Ofalu
drin eu hachoſion bydol ; Hwy a ga'nt gariad
Ewyllys dà eu Cymmydogion, Paw b, ſy'n chw
nog i ymfaſnach à hwynt, ac yn ewyllyſgar i
parch a choel a chymmeriaeth iddynt, a Ph
Dynion dà fydd yn barod iw cynnorthwyo.

Ac wrth hynny pe bai fodd i wneuthur
ffelybiaeth a chyfri 'manwl, nid oes ammeu
bu fwy o Bobl Elufengar a 'chwanegaſant
golud nag or rhai au treuliaſant neu au lleih
ſant ; Ond ped fai amgenach, Os treuliodd
Gwŷr dà eu heiddo trwy haelioni a ſyberw
neu pe digwyddai iddynt ſyrthio i Galed
cl

yſyngder, trwy ddrwg-ddamwain neu helbul, c nid oes ir Gwŷr gorau mor meichieu yn yn y Cyfryw dramgwyddiadau) yn ddiam- eu t'a ddarpar Duw ryw ffordd neu ei gilydd nwared iddynt, nid oes odid o Ddŷn na bydd rod iw Cynnorthwyo, a phrin y gallir Medd- y Cynnwyſir ir Cyfryw ûn fyned yn adŷn, n fod yr Apoſtol yn mynegi i ni, Rhuf. 5. 7. *s y dâ,* (hynny yw, tros wr trugarog tôſturiol ılengar) *Yſgatſydd f'a feiddia ûn ſarw heſyd.* Yr oedd Duw Erioed yn ofalus tros ben am weiſion, F'a borthodd y Prophwyd *Elias* vy weinidogaeth Cigfrain, y rhai a ddyga- t hob borau a Phrydnhawn ddigon o lûn- th iddo ; ac a feddyliwn ni y bydd Efe yn ghofus am danom ni, os daw Cyfyngder ar- m o herwydd Ufuddhau iw Ewyllys Ef? Hwn a ddarparodd yn haelionus i ni Cyn y lem fod yn deimladwy o'i Ddoniau a'i Gym- vynaſau, a chyn medru o honom mewn Modd y byd ddadcan ein diolchgarwch iddo, a mydd Efe i ni 'n Angenrheidiau, gwedi treu- o honom yr hyn a roddes Ef i ni, er anrhyd- d iddo, ac yn ei waſanaeth Ef? A ddichon Credadyn feddwl y gedŷ Duw arno ddeffyg yd a dillad o herwydd iddo borthi a dila- Chriſt yn ei Aelôdau Noethion a'i Gennadon ewynllyd? Neu a ettyl ein Harglwydd an nllywiawdr mawr bethau dâ dauarol oddiwrth rhai y darparodd Efe drag'wyddol bwyſau ogoniant iddynt? Pob Cyfryw ammheuon ac

Ofnau, megys y mae'nt yn ddi-ſylfaen, felly mae'nt yn arwyddoccau anghrediniaeth ac a hyder ynGair Duw a'i Raglunaeth; Drwg feddyliau ydynt gwedi codi ynom yn erby tyner anwyldra a chariad ein Pryniawdr, ac n ydynt ddim amgen na Dichellion Cyfrwyſ-ddrw a chynhyrfiadau 'r Yſpryd Uffernol, am hynn na chroeſawwn monynt Mwy yn ein mynweſa Eithr trown hwynt yn Alltudion allan o'n h neidiau.

Ac os *diwallwn yr Ymddifaid ar Gwrage gweddwon yn eu hadfyd, os gwnawn ddâ i bawb enwedig ir rhai ſydd o Deulu 'r ffydd*, mae genny Air ac addewid yr Hollalluog Dduw, y gw brwyd Ef ein gwaith an Llafur yr hwn fydd Gariad a bendithion ac a phethau daionus y by wyd hwn, ac a llawenydd a Dedwyddwch a nrhaethawl yn y byd a ddaw. *Amen.*

Traetha

TRAETHAWD. IV.

Am Edifeirwch.

JOEL, 2. 12, 13.

nd yr awrhon, medd yr Arglwydd, dychwelwch attafi ach holl Galon, ag Ympryd hefyd, ac ag Wylofain, ac â galar.

rhwygwch eich Calon ac nid eich dillad, ac ymchwêlwch at yr Arglwydd eich Duw; O herwydd graſlawn a thrugarog yw Efe, a mawr ei Drugaredd ac Edifeiriol am ddrwg.

NID oes ûn Ddledſwydd a berthyn i Griſtion a gofleir ſynychach, ac a gymmhellir yn ddwyſach arnom yn yr Yſgrythyr lân, na'r Ddledſwydd o Edifeirwch, yr hon ſydd yn Arwyddoccau nid yn unig Alar diffuant a Gol am Bechod. eithr gwir ac Ebrwydd well. id ein Bucheddau, â difrifol ymchweliad at duw. A mawr Drugaredd i'n Heneidiau yw od Yſpryd Duw fel hyn yn ein Cynhyrfu ac ein Cefnogi i Ymarfer a'r Ddledſwydd hon, n nad oes odid o ſunud o'n Hoes nad ydym Cythruddo Cyfiawnder Duw trwy ryw dram.

gwydd

gwydd neu ei gilydd ac yr ydym yn fynych jaw
yn fyrthio oddiwrtho trwy Bechodau rhyfygu
ac wrth hynny 'n ein peryglu 'n hunain i Goll
edigaeth dragywyddol.

Pa le bynnag y Pregether y Newyddion d
am Jechydwriaeth, rhaid yw Pregethu Edifeir
wch hefyd megys modd ac ammod angenrheid
ir perwyl hwnnw, nid oes dim Maddeuant a
Bechodau iw gael heb Edifeirwch, am hynny ma
'n Jachawdr yn eu cyfflylltu ynghyd, *rhaid oed*
i Grift ddioddef, a chyfodi o feirw, a Phregeth
Edifeirwch a Maddeuant Pechodau yn ei Enw E
ymmhlith yr holl Genhedloedd. Luc. 24. 46, 47
Ac er bod yn amlwg yn Yfgrythyrau 'r Teft
ament Newydd, fod y fath Ragorfreintiau go
goneddus yn perthyn i 'n Ffydd ni, ag y gell
meddwl mai 'r unig beth angenrheidiol i 'n Jec
hydwriaeth ydyw, etto nid oes na grym na
Effaith ynddi heb Edifeirwch; ac am hynny
mae St. *Paul*, pan yw 'n dywedyd wrth Eglwy
Epheſus nad *attaliafei ddim or pethau buddiol beb*
mynegi iddynt, Yn cynnwys yr holl Athrawiaet
a ddyfgafei yn y ddwy Ddledwydd hyn gy
fylltedig, fef *Edifeirwch tuag at Dduw, â Ffyd*
tuag at ein Harglwydd Jefu Grift. Act. 20. 2
F 'a ddarfu i *Joan* Fedyddiwr, yr hwn oed
i *barottoi ffordd yr Arglwydd*, ddechren Ei We
nidogaeth ir perwyl hwnnw ar Athrawiaet
Edifeirwch, mae 'n Jachawdr hefyd yn dal cym
maint arni yn ei Bregethau, ac yn gorchym
myn iw Apoftolion barhau i Bregethu felly hefy

Yn

Ym Mhrophwydoliaethau 'r Hên Deſtament nae llawer o Annogaethau dwyſion i'r Ddledwydd hon; Hon yn y teſtyn yw 'r gyflawnaf ddyſgu i ni 'r modd y dylem Edifarhau, ar wchuſaf hefyd i'n cynhyrfu i hynny. *Ond n awr mêdd yr Arglwydd, &c.*

